

18 Y Dyn Taci	207
19 Palas y Frenhines	219
20 Milwyr Gwarchodlu Coldstream	231
21 Y Cymdogion a'r Newyddion	242
22 Sibrydion Byd-eang	257
23 Brendan-y-Bwli a'r Newyddion Newydd	279
24 Y Cyfweliad	288
25 Neges y Frenhines	306
26 Y Presennol	313



Y Gadair Wag

Roedd cadair wag yn arfer bod yng nghefn fy nosbarth i. Doedd hi ddim yn gadair arbennig. Roedd hi'n wag am fod neb yn eistedd arni hi. Ond wedyn, un diwrnod, dair wythnos ar ôl dechrau'r ysgol, digwyddodd y peth mwyaf cyffrous allai byth ddigwydd i unrhyw un i fi a'm tri ffrind gorau. A'r gadair yna oedd wrth wraidd popeth.

Fel arfer, y peth gorau am ddechrau tymor newydd sbon yw cael mwy o arian poced nag arfer er mwyn prynu offer ysgrifennu. Bob blwyddyn, ar ddydd Sul olaf gwyliau'r haf, bydd Mam yn mynd â fi ar Antur Arbennig Iawn i chwilio am set offer ysgrifennu ar gyfer blwyddyn newydd yn yr ysgol. Weithiau, dwi'n cyffroi cymaint, bydd fy nhraed yn teimlo fel neidio tu

mewn a dwi'n methu penderfynu pa siop dwi eisiau mynd iddi gyntaf. Does dim llawer o siopau offer ysgrifennu neis lle dwi'n byw - dim ond rhai sy'n cynnig setiau deinosor diflas i fechgyn a setiau tywysogesau diflas i ferched. Felly bydd Mam yn mynd â fi ar y bws a'r trên i mewn i'r ddinas lle mae strydoedd cyfan yn llawn o siopau - hyd yn oed siopau enfawr sy'n gwerthu popeth, ac yn ymestyn i'r awyr fel blociau tal o fflatiau.

Llynedd, dois i o hyd i set ar thema'r gofod gyda lluniau o ofodwr yn arnofio heibio'r lleuad. Roedd y set ar y sêl hefyd, felly dyma fi'n prynu cas pensiliau, set mathemateg, rwbër a phren mesur hir - ac roedd gen i bron i bunt dros ben o hyd! Y pren mesur oedd fy hoff eitem o blith y cwbl, oherwydd mae'r gofodwr yn arnofio ar ei draws mewn dŵr sydd wedi'i gymysgu â sêr arian. Gwnes i chwarae cymaint ag e nes i'r gofodwr fynd yn sownd ar un ochr heb awydd symud mwy. Ond nid fy mai i oedd hynny. Roedd gan Mr Thompson, ein hathro dosbarth y llynedd, lais mor ddiflas nes bod fy nwylo angen rhywbeth i'w wneud. Dyna pam mae'n angenrheidiol cael offer ysgrifennu sy'n llawn hwyl yn y dosbarth - oherwydd dydych chi byth yn gwybod

pryd fydd angen i chi stopio eich ymennydd rhag mynd i gysgu neu wneud rhywbeth allai arwain i chi orfod aros ar ôl ysgol fel cosb.

Eleni, dyma fi'n prynu set Tintin a Snowy. Dwi'n caru Tintin. Er mai dim ond cymeriad mewn llyfr comic yw e, a ddim yn real, dwi eisiau bod yn union yr un fath ag e pan fydda i'n fawr. Dwi'n meddwl mai bod yn newyddiadurwr a chael datrys dirgelwch a mynd ar antur yw'r swydd orau yn y byd. Roedd Mam a Dad yn arfer prynu llyfr comic Tintin newydd sbon ar gyfer fy mhen-blwydd bob blwyddyn, ac mae Mam yn achub yr holl gomics mae'r llyfrgell ar fin eu taflu am eu bod nhw'n rhy hen neu wedi rhwygo, ac yn eu rhoi nhw i fi, felly mae gen i gasgliad cyfan erbyn hyn. Dwi wedi darllen pob un o leiaf hanner cant o weithiau. Ond bydd yn rhaid i fi feddwl am anifail anwes arall i deithio gyda fi, oherwydd mae gen i alergedd i gŵn. Dwi ddim yn meddwl y byddai cath na bochdew, na hyd yn oed llygoden sydd wedi cael ei hyfforddi, hanner mor ddefnyddiol â chi Tintin, Snowy. Ac er 'mod i wedi meddwl am hyn am o leiaf flwyddyn nawr, does dim ateb wedi dod eto.

Am fod y set offer ysgrifennu Tintin yn llawer mwy

drud nag un y gofodwr, a ddim ar y sêl, dim ond cas pensiliau, pren mesur bach a dau rwber allwn i eu prynu. Bu'n rhaid i fi feddwl am amser maith am y peth, ond yn y diwedd penderfynais fod gwario fy holl arian poced ar unwaith yn werth ei wneud. Nid dim ond am fod gan bopeth lun Tintin arno fe, ond oherwydd os ydych chi'n gwasgu botwm ar y cas pensiliau, mae Snowy'n cyfarth a llais Capten Haddock yn gweiddi 'Brensiach y Brwyniaid!'. Dwi wedi cael stŵr yn barod am wasgu'r botwm yng nghanol gwers mathemateg, ond os na allwch chi wasgu botwm ci'n cyfarth yn ystod gwers maths, yna beth yw'r pwynt?

Dwi ddim yn hoffi mathemateg. Mae maths syml yn iawn, ond eleni rydyn ni'n dysgu am rannu hir a rhifau sgwâr a phob math o bethau dyw fy ymennydd ddim yn eu hoffi. Weithiau byddai i'n gofyn am help, ond mae gen i gywilydd codi fy llaw a gofyn yr un cwestiwn yn rhy aml. Dwi'n lwcus am fod Tom a Josie a Michael yn barod i fy helpu gyda'r pethau sy'n anodd. Nhw yw fy ffrindiau gorau ac rydym ni'n gwneud popeth gyda'n gilydd.

Mae gan Tom wallt byr sbeiciog a gwên unochrog a gwdddf sy'n edrych fel bod pêl ping-pong wedi mynd yn

sownd yn ei lwnc. Fe yw'r lleiaf yn ein grŵp ni, ond fe yw'r un mwyaf doniol hefyd. Dim ond y llynedd y daeth e i'n dosbarth ni ar ôl i'w rieni symud yma o America, ond ddaethon ni'n ffrindiau ar unwaith. Mae ganddo fe dri brawd mawr sy'n tynnu'i goes ac yn ei fwlio. Ddim yn ddrwg, dim ond i gael hwyl. Ond dwi'n meddwl eu bod nhw'n dwyn ei fwyd e hefyd, a dyna pam mae e mor denau ac ar lwegu drwy'r amser. Welais i fe'n bwyta pítsa cyfan gyda thopins ychwanegol, a byrgyr caws dwbl i ginio un tro, a doedd e'n dal ddim yn llawn! Felly dwi'n cuddio fy snacs a 'mariau siocled i oddi wrtho pan alla i.

Mae gan Josie lygaid mawr brown, ac o leiaf fliwn o frychau haul ar draws ei hwyneb. Mae hi'n dal ac yn fain ac mae hi'n cnoi'i gwallt drwy'r amser. Hi yw'r ferch gyflymaf yn ein blwyddyn ni a gall hi gicio pêl-droed heibio i unrhyw gôl-geidwad o ben arall y cae. Hi yw'r person mwyaf cŵl dwi'n nabod, a dwi'n ei nabod hi ers pan oedd hi'n dair oed. Mae ein mamau ni'n dweud ein bod ni wedi dod yn ffrindiau yn syth bîn ar ein diwrnod cyntaf gyda'n gilydd yn y meithrin, felly dyma nhw'n penderfynu dod yn ffrindiau hefyd. Dwi ddim yn cofio rhyw lawer amdanaf i fy hun pan

oeddwn i'n dair oed, ond mae Josie ym mhob un o fy atgofion am yr ysgol. Gawson ni hyd yn oed ein cosb aros ar ôl ysgol gyntaf gyda'n gilydd llynedd – a'r cyfan oherwydd bochdew o'r enw Herbert.

Roedd Josie wedi clywed un o fwls yr ysgol hŷn yn dweud ei fod e'n mynd i olchi bochdew ein dosbarth, Herbert, i lawr y tŷ bach pan oedd hi'n amser mynd adref. Dywedodd Josie wrtha i, a phenderfynon ni ddyfeisio cynllun Achub Bochdew. Dyma ni'n cuddio Herbert yn fy sach gefn cyn amser mynd adref a mynd ag e yn syth i 'nhŷ i. Ond wrth gwrs, gwnaeth Mam ddarganfod y bochdew a gorfodi fi i fynd ag e'n ôl y diwrnod wedyn. Ceisiais esbonio wrth Mr Thompson diflas beth oedd wedi digwydd, ond doedd e ddim eisiau gwrando, a chefais gosb aros ar ôl ysgol. Ac er bod dim rhaid iddi hi, safodd Josie ar ei thraed a dweud ei bod hi wedi helpu i ddwyn Herbert hefyd – er mwyn i ni allu wynebu'r gosb gyda'n gilydd. Allwch chi ddweud fod ffrind yn Ffrind Gorau pan fyddan nhw'n fodlon eistedd yn y gell gosb gyda chi.

Gan Michael mae'r gwallt Affro taclusaf, mwyaf pwfflyd o holl fechgyn ein blwyddyn ni. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn meddwl ei fod e'n rhyfedd. Ond dydyn

ni ddim. Mae'i sbectol wastad wedi torri, a dyw careiau ei esgidiau byth wedi'u clymu'n iawn, felly mae e'n baglu neu'n taro yn erbyn pethau drwy'r amser wrth gerdded. Ond rydyn ni mor gyfarwydd â hynny nawr nes bod neb ohonom ni'n sylwi. Mae e'n dawel ran amlaf ond pan fydd e'n dweud rhywbeth, bydd oedolion fel arfer yn edrych yn edmygus arno fe a dweud ei fod e'n 'alluog' neu'n 'graff', neu'n defnyddio geiriau mawr rhyfedd eraill. Dwi ddim yn gwybod beth maen nhw'n meddwl, ond dwi'n dyfalu mai dweud ei fod e'n glyfar y maen nhw. Mae oedolion bob amser yn hoffi dweud geiriau mawr am bethau syml.

Mae llawer yn gwneud hwyl am ben Michael oherwydd dyw e ddim yn gallu rhedeg yn gyflym na chicio pêl yn syth, ond does dim ots ganddo fe. Fasai dim ots gen i chwaith pe bawn i yr un mor gyfoethog ag e. Athro prifysgol yw ei dad, ac mae'i fam yn gyfreithwraig, ac am eu bod nhw wastad yn brysur, maen nhw'n prynu'r holl gajets a'r llyfrau diweddaraf iddo fe, a'r gemau newydd mwyaf cŵl. Pan aethon ni i'w dŷ e llynedd ar gyfer ei barti pen-blwydd, dyma ni'n gweld ei stafell e am y tro cyntaf. Roedd hi'n edrych fel siop deganau. Rhaid ei bod hi'n haws peidio â meddwl

beth yw barn pobl pan fydd gyda chi gymaint â hynny o deganau.

Mae Josie a Michael yn cystadlu â'i gilydd drwy'r amser i weld pwy sy'n gallu ennill y nifer fwyaf o sêr aur a graddau A yn y dosbarth. Michael sydd orau yn Hanes ond Josie yw'r gorau ym mathemateg. Ond dwi'n well am ddarllen a sillafu na'r ddau ohonyn nhw – yn enwedig Josie. Mae hi'n casáu darllen a dyw hi byth bythoedd yn darllen dim tu fas i'r dosbarth. Mae hi'n dweud bod dim dychymyg gyda hi, felly does dim pwynt darllen llyfrau. Mae hynny'n rhyfedd i fi, oherwydd sut all neb beidio cael dychymyg? Rhaid bod un ganddi pan oedd hi'n llai ond ei fod wedi cwmpo mas pan gafodd hi ddamwain ar ei beic haf diwethaf. Mae Mam yn dweud fod pobl heb ddychymyg wedi marw tu mewn. Dwi ddim yn meddwl bod unrhyw ran o Josie wedi marw – mae hi'n siarad gormod.

Mae cael tri ffrind gorau'n gallu gwneud i'r ysgol deimlo fel y lle gorau i fod, hyd yn oed ar y diwrnod mwyaf diflas. Er, mae'r ysgol wedi dod yn llawer mwy o sbort eleni – oherwydd ein hathrawes newydd, Mrs Khan.

Mae gan Mrs Khan wallt bownsiog iawn sydd

wastad yn arogli fel jam mefus – sy'n llawer gwell na drewi o hen sanau, fel Mr Thompson. Newydd ddod i'r ysgol mae hi, ac mae hi'n glyfar iawn – llawer mwy clyfar nag oedd Mr Thompson erioed. Ac mae hi'n rhoi gwobrau i ni bob dydd Gwener pan fydd pawb wedi bod yn dda. Does dim athro arall yn ein blwyddyn ni'n gwneud hynny.

Mae Mrs Khan yn gadael i ni wneud pob math o bethau diddorol dydyn ni ddim wedi'u gwneud o'r blaen. Yn ystod wythnos gyntaf y tymor, helpodd hi ni i greu offerynnau cerdd o bethau oedd yn y bin ailgylchu, ac yn ystod yr ail wythnos, daeth hi â llyfr comic newydd sbon i ddarllen i ni, oedd ddim hyd yn oed yn llyfrgell yr ysgol eto.

Wedyn, yn ystod y drydedd wythnos, digwyddodd rhywbeth oedd yn gymaint o syrpreis a phawb yn teimlo mor chwilfrydig, doedd Mrs Khan hyd yn oed ddim yn gallu gwneud i ni ganolbwyntio'n iawn ar ein gwersi. A dechreuodd popeth gyda'r gadair wag.




Y trydydd dydd Mawrth ar ôl i'r ysgol ddechrau oedd hi, ac roedd Mrs Khan yn gwneud y gofrestr. Roedd hi

ar fin galw fy enw i pan gurodd rhywun yn galed ar y drws. Fel arfer, pan fydd rhywun yn curo ar y drws, rhywun o ddosbarth arall sydd yno'n dod â neges, felly does neb wir yn talu sylw; ond y tro hwn, Mrs Sanders, y Pennaeth, oedd yno. Mae Mrs Sanders yn gwneud ei gwallt yn union yr un peth drwy'r amser ac mae hi'n syllu dros ben ei sbectol pan fydd hi'n siarad ag unrhyw un. Mae pawb yn ei hofn hi, oherwydd pan fydd hi'n rhoi cosb aros ar ôl ysgol, dyw hi ddim yn gwneud i chi eistedd yn y gell gosb yn unig; mae hi'n gwneud i chi ddysgu geiriau hir o'r geiriadur ar eich cof a dyw hi ddim yn gadael i chi fynd adref tan i chi ddysgu pob un ar gof – yr ystyr a sut i'w sillafu. Dwi hyd yn oed wedi clywed am blant llai yn cael eu cosbi a gorfod aros am oriau ar ôl ysgol am fod yn rhaid iddyn nhw ddysgu geiriau oedd yr un mor hir â'r dudalen hon!

Felly pan welson ni mai Mrs Sanders oedd wrth y drws, aeth pawb yn dawel iawn. Roedd hi'n edrych yn ddifrifol wrth iddi hi gerdded at Mrs Khan, ac roedd pawb eisiau gwybod pwy oedd mewn trybini. Ar ôl iddi hi sibrwd a nodio'i phen am rai eiliadau, dyma hi'n troi'n sydyn, a gan syllu arnom dros ei sbectol pwyntiodd at y gadair wag yng nghefn y dosbarth.

Trodd pawb o gwmpas i edrych ar y gadair wag.
Dyma'r gadair:



Fel y dywedais i, cadair ddigon cyffredin oedd hi, ac roedd hi'n wag am fod merch o'r enw Dena wedi gadael ein dosbarth ni ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf er mwyn symud i Gymru. Doedd fawr o neb yn gweld ei heisiau heblaw am ei ffrind gorau, Clarissa. Roedd Dena wedi bod yn dipyn o fi-fawr, a byddai hi'n siarad drwy'r amser am faint o anrhegion roedd ei rhieni'n prynu iddi hi bob wythnos, a sawl pâr o esgidiau ymarfer oedd ganddi a phob math o beth arall doedd gan neb ots amdano. Roedd hi'n hoffi eistedd yng nghefn y dosbarth, oherwydd gallai hi a Clarissa esgus gwneud gwaith pan oedden nhw wir yn tynnu lluniau'u hoff sêr pop a chwerthin am rywun do'n nhw ddim yn ei hoffi. Gallai rhywun arall fod wedi eistedd yn y sedd, ond doedd neb arall wir eisiau eistedd wrth ochr Clarissa. Dyna pam roedd y gadair yn dal yn wag.

Ar ôl sibrwd tipyn bach mwy gyda Mrs Khan, aeth Mrs Sanders allan o'r dosbarth. Dyma ni'n disgwyl i Mrs Khan ddweud rhywbeth, ond roedd hi fel pe bai hi'n aros, felly dyma ni'n aros hefyd. Roedd popeth yn ddifrifol a chyffrous iawn. Ond cyn i ni allu dechrau dyfalu beth oedd yn digwydd, daeth Mrs Sanders yn ôl, a'r tro hwn, doedd hi ddim ar ei phen ei hun.

Y tu ôl iddi hi roedd bachgen. Bachgen doedd neb ohonom ni wedi'i weld o'r blaen. Roedd ganddo fe wallt byr tywyll a llygaid mawr oedd braidd byth yn symud, a chroen llyfn, gwelw.

'Bawb,' meddai Mrs Khan, wrth i'r bachgen fynd i sefyll wrth ei hochr hi. 'Dyma Ahmet, a bydd e'n dod i ymuno â'n dosbarth ni o heddiw ymlaen. Mae e newydd symud i Lundain ac mae e'n newydd i'r ysgol, felly gobeithio y bydd pob un ohonoch chi'n gwneud eich gorau glas i'w groesawu.'

Fe wnaeth pob un wyllo heb ddweud gair wrth i Mrs Sanders ei arwain at y gadair wag. Ro'n i'n teimlo trueni drosto, oherwydd ro'n i'n gwybod na fyddai e'n hoffi eistedd wrth ochr Clarissa. Roedd hi'n dal i weld eisiau Dena, ac roedd pawb yn gwybod ei bod hi'n casáu bechgyn – mae hi'n dweud eu bod nhw'n dwp ac yn drewi.

Dwi'n meddwl mai un o'r pethau gwaethaf yn y byd fyddai bod yn newydd yn rhywle a gorfod eistedd gyda phobl dwyt ti ddim yn eu nabad. Yn enwedig pobl sy'n syllu a rhythu arnat ti fel roedd Clarissa'n gwneud. Addewais yn gyfrinachol i fi fy hun yr eiliad honno y byddwn i'n ffrindiau gyda'r bachgen newydd. Fel roedd

hi'n digwydd, roedd gen i losin lemnwn sherbert yn fy mag y bore hwnnw a meddyliais y byddwn i'n cynnig un iddo fe amser egwyl. A byddwn i'n gofyn i Josie a Tom a Michael fod yn ffrindiau gydag e hefyd.

Wedi'r cyfan, byddai cael pedwar ffrind newydd yn llawer gwell na chael dim un. Yn enwedig i fachgen oedd yn edrych mor ofnus a thrist â'r un oedd bellach yn eistedd yng nghefn ein dosbarth.



Y Cwrt â Llygaid Llew

Weddill y dydd, ro'n i'n taflu cipolwg dros fy ysgwydd ar y bachgen newydd, a sylwais fod pawb arall yn gwneud yr un peth.

Ran amlaf, byddai'n cadw'i ben yn isel, ond bob hyn a hyn byddwn i'n dal ei lygad yn sylu'n syth yn ôl atom ni. Roedd ei lygaid y lliw rhyfeddaf welais i erioed – fel môr llachar, ond ar ddiwrnod hanner heulog, hanner cymylog. Llwyd ac arian-las gyda thameidiau eurfrown. Ro'n nhw'n fy atgoffa o raglen welais i un tro am lewod. Roedd y dyn camera wedi troi'i lens yn agos at wyneb un llew – mor agos nes bod ei lygaid yn llenwi'r sgrin. Dyna sut oedd llygaid y bachgen newydd, fel llygaid y llew hwnnw. Ro'n nhw'n gwneud i chi fod eisiau sylu arno am byth.

hi'n digwydd, roedd gen i losin lemwn sherbert yn fy mag y bore hwnnw a meddyliais y byddwn i'n cynnig un iddo fe amser egwyl. A byddwn i'n gofyn i Josie a Tom a Michael fod yn ffrindiau gydag e hefyd.

Wedi'r cyfan, byddai cael pedwar ffrind newydd yn llawer gwell na chael dim un. Yn enwedig i fachgen oedd yn edrych mor ofnus a thrist â'r un oedd bellach yn eistedd yng nghefn ein dosbarth.



Y Crwt â Llygaid Llew

Weddill y dydd, ro'n i'n taflu cipolwg dros fy ysgwydd ar y bachgen newydd, a sylwais fod pawb arall yn gwneud yr un peth.

Ran amlaf, byddai'n cadw'i ben yn isel, ond bob hyn a hyn byddwn i'n dal ei lygad yn sylu'n syth yn ôl atom ni. Roedd ei lygaid y lliw rhyfeddaf welais i erioed – fel môr llachar, ond ar ddiwrnod hanner heulog, hanner cymylog. Llwyd ac arian-las gyda thameidiau eurfrown. Ro'n nhw'n fy atgoffa o raglen welais i un tro am lewod. Roedd y dyn camera wedi troi'i lens yn agos at wyneb un llew – mor agos nes bod ei lygaid yn llenwi'r sgrin. Dyna sut oedd llygaid y bachgen newydd, fel llygaid y llew hwnnw. Ro'n nhw'n gwneud i chi fod eisiau sylu arno am byth.

Pan ddaeth Tom i'n dosbarth ni y llynedd wnes i syllu arno fe gryn dipyn hefyd. Do'n i ddim yn bwriadu gwneud, ond ro'n i'n dychmygu ei fod e'n aelod o deulu o ysbwyr o America - fel y rhai yn y ffilmiau. Dywedodd wrtha i wedyn ei fod e'n meddwl bod rhywbeth yn bod arna i. Roedd y bachgen newydd siŵr o fod yn meddwl bod rhywbeth yn bod arna i hefyd, ond mae'n anodd stopio syllu ar bobl newydd - yn enwedig pan mae eu llygaid nhw fel rhai llew.

Daearyddiaeth oedd pwnc y wers gyntaf y bore hwnnw, felly doedd dim modd codi a mynd i ddweud helô wrth y bachgen newydd. Yna, amser egwyl, chwiliais o gwmpas y buarth amdano fe, ond allwn i 'mo'i weld e yn unman. Ymarfer Corff oedd yr ail wers, ond wnaeth y bachgen newydd ddim cymryd rhan; eisteddodd yn y cornel yn syllu ar ei sach gefn, oedd yn goch â streipen ddu, ac oedd yn edrych yn frwnt iawn. Rhaid ei fod e wedi anghofio'i ddillad Ymarfer Corff, meddyliais, gan fod ei fag yn edrych yn wag a llipa. Ceisiais godi llaw arno fe, ond wnaeth e ddim edrych i fyny - ddim un waith.

Bob tro y byddwn ni'n gwneud Ymarfer Corff, dwi'n hoffi esgus 'mod i'n hyfforddi i ymuno â Tintin ar antur,

a bod yn rhaid i fi fod y person cyflymaf ar y blaned. Yr unig broblem yw nad yw 'nghoesau i mor hir ag yr ydw i eisiau eto, felly hyd yn oed pan fydda i'n neidio fy ngorau glas, dwi wastad yn mynd yn sownd yng nghanol y llamfa. Bob pen-blwydd, dwi'n gwneud dymuniad i dyfu o leiaf pedair modfedd yn dalach, a dwi'n yfed cymaint o laeth ag y galla i er mwyn ymestyn fy esgyrn. Ond er 'mod i'n naw a thri chwarter nawr, dwi prin wedi tyfu modfedd a hanner ers fy mhendlwydd diwethaf. Neu o leiaf dyna mae Mam yn ei ddweud. Triais fy 'ngorau i neidio dros y llamfa mewn un symudiad o flaen y bachgen newydd, ond mynd yn sownd eto wnes i. Yn ffodus, wnaeth e ddim gweld, am ei fod e'n syllu ar ei sach gefn drwy'r amser.

Ar ôl Ymarfer Corff, roedd hi'n amser cinio, a phenderfynodd Josie, Tom, Michael a fi y byddwn ni'n ceisio dod o hyd i'r bachgen newydd, er mwyn iddo fe beidio â bod ar ei ben ei hun. Arhoson ni reit ar bwys drysau'r buarth. Ond ddaeth y bachgen newydd ddim allan. Aeth Tom i edrych yn nhai bach y bechgyn, hyd yn oed, oherwydd dyna ble roedd e wedi ceisio cuddio ar ei ddiwrnod cyntaf, pan oedd e ddim yn nabod neb, ond doedd neb yno.

'Falle'i fod e'n cael cinio gyda'r plant llai, ar ddamwain?' awgrymodd Josie. Ond pan aethon ni i mewn i'r ffreutur, doedd dim sôn amdano fe yn unman.

Hanes oedd gwers y prynhawn, ac ro'n ni wedi cael ein rhannu'n grwpiau, ond cafodd y bachgen newydd eistedd ar ei ben ei hun a pheidio cymryd rhan. Treuliodd Mrs Khan fwy o amser gydag e na gyda dim un o'r grwpiau eraill, ac roedd hi'n pwyntio at bethau yn ei lyfr gwaith newydd.

'Falle'i fod e'n drwm' i glyw?' sibryddodd rhywun.

'Falle'i fod e ddim yn gallu siarad Saesneg?' mwmialodd rhywun arall.

'Mae rhywbeth yn bod arno fe, yn bendant!' sibryddodd pawb.

Y prynhawn hwnnw, dwi ddim yn meddwl fod yr un ohonom ni wedi dysgu dim am sut brofiad oedd bod yn ymladdwr adeg y Rhufeiniaid, oherwydd roedd pawb yn rhy brysur yn sibrawd am y bachgen newydd. Rhaid ei fod e'n gwybod beth ro'n ni'n ei wneud oherwydd roedd ei wyneb yn goch drwy'r amser. Yna, pan ddaeth amser chwarae'r prynhawn, diflannodd eto.

'Rhaid i fod e tu mewn,' meddai Michael, ar ôl i ni orffen chwilio pob twll a chornel o'r buarth am y

trydydd tro. Erbyn hyn, roedd fy losin lemw'n sherbert yn mynd yn ludiog yn fy mhoced ac yn dechrau edrych fel peli o fflwff melyn.

Pan ddaeth hi'n amser mynd adref, roedd pawb yn dal i siarad am y bachgen newydd, ac yn ceisio dyfalu pwy oedd e. Dwi'n meddwl mai'r rheswm am hyn oedd fod diwrnod cyfan wedi mynd heibio, ond doedd neb yn gwybod dim amdano fe, heblaw am ei enw. Doedd hyd yn oed Clarissa ddim yn gwybod dim - ac roedd hi wedi bod yn eistedd wrth ei ochr!

Byddai pobl yn rhedeg ati hi drwy'r amser i'w holi oedd y bachgen newydd wedi dweud unrhyw beth wrthi, ond dim ond ysgwyd ei phen a dweud ei fod e'n defnyddio llyfr gwaith i blant y flwyddyn yn iau na ni, felly rhaid bod ei sgiliau darllen ac ysgrifennu yn wan.

Ar ein ffordd i gwrdd â'r bws, dyma ni'n gweld pawb yn heidio o gwmpas Jennie y tu allan i'r glwyd fawr. Mae Jennie'n enwog yn yr ysgol am wybod rhywbeth am bopeth, felly dyma ni'n rhedeg draw i glywed beth oedd ganddi i'w ddweud.

Mae Jennie yn y dosbarth drws nesaf a ganddi hi mae'r gwallt hiraf yn yr ysgol. Mae hi'n hoffi sbecian ar bobl ac wedyn adrodd straeon amdanyn nhw wrth bobl

eraill. Weithiau mae'r straeon yn wir, ond fel arfer dim ond hanner gwir ydyn nhw, am ei bod hi'n dyfeisio'r gweddill. Llynedd dyma hi'n dweud stori am Josie'n twyllo mewn gêm bêl-droed drwy esgus cwmpo er mwyn cael cic o'r smotyn. Ond ro'n i yno, a Tom hefyd, a gwelodd y ddau ohonom ni ei bod hi wedi cwmpo ar ôl i fachgen mwy o'r enw Robert ei chicio yn ei choes. Roedd clais enfawr yr un siâp ag Awstralia ganddi ar ei choes am wythnosau wedyn. Ond doedd dim ots sawl tro ddywedon ni'r stori go iawn, doedd neb yn ein credu ni. Ddim hyd yn oed y bobl oedd yno.

Weithiau dwi'n meddwl fod pawb yn hoffi credu celwydd hyd yn oed pan fyddan nhw'n gwybod mai celwydd yw e, am ei fod yn fwy cyffrous na'r gwir. Ac maen nhw'n arbennig o hoff o'i gredu os ydyn nhw'n ei ddarllen mewn papur newydd. Dwi'n gwybod hynny nawr. Dwi hefyd yn gwybod pam fod Mam yn dweud mai celwyddgwn yw gwleidyddion, a pham ei bod hi'n gweiddi arnyn nhw bob tro y byddan nhw ar y teledu. Efallai y bydd Jennie'n wleidydd pan fydd hi'n fawr.

Wrth i ni nesu, ro'n ni'n gallu clywed Jennie'n dweud wrth bawb fod y bachgen newydd wedi treulio pob amser egwyl gyda Mrs Sanders, am ei fod e wedi

gwneud rhywbeth drwg yn ei hen ysgol, a'i fod e'n rhy beryglus i gael ei adael mas i chwarae gyda ni. Ond do'n i ddim yn ei chredu hi; ro'n i'n gallu dweud fod Michael ddim yn ei chredu hi chwaith, a dyma fe'n gofyn iddi sut roedd hi'n gwybod cymaint am y peth. Gwylltiodd Jennie a chroesi'i chalon cris croes tân poeth ei bod hi wedi clywed Mr Owen yn siarad â Mrs Timms tu fas i'r stafell staff, a bod y ddau wedi dweud mor flin ro'n nhw'n teimlo drös Mrs Khan, a pha mor falch oedden nhw fod y bachgen newydd ddim yn eu dosbarth nhw, am ei bod hi'n mynd i fod yn her delio ag e. Ond cyn i ni allu gofyn mwy o gwestiynau, canodd tad Jennie gorn y car, a rhedodd hi i ffwrdd.

Gwylodd pawb hi'n mynd ac yna edrychôn ni'n ôl drwy glwydi'r ysgol i weld oedd y bachgen newydd wedi dod mas. Ond do'n ni ddim yn gallu'i weld e yn unman.

'Mae e wedi gadael yn barod, siŵr o fod,' meddai Josie.

Nodiodd Tom a Michael. 'Beth am aros ddwy funud arall?' dywedais i, gan obeithio ei fod e'n dal yn yr ysgol. Ac ro'n i'n falch 'mod i wedi gwneud, oherwydd ar ôl eiliad neu ddwy, daeth y bachgen newydd mas i'r

buarth. Roedd e'n dal llaw Mrs Khan ac yn syllu ar y llawr. Yn sydyn, dyma'r fenyw oedd wedi bod yn aros ger y meinciau'n gweiddi, 'Iww-hww!' a rhedeg draw atyn nhw. Roedd hi'n gwisgo côth hir frown, het wlanog, a sgarff goch lachar. Safodd a siarad â Mrs Khan am amser maith, a nodio'i phen gryn dipyn, ond do'n ni ddim yn gallu clywed gair am ein bod ni'n sefyll yn rhy bell i ffwrdd.

'Falle mai'i fam e yw hi?' mentrodd Josie. Ro'n i'n amau hynny, achos wnaeth y bachgen newydd ddim rhoi cwtsh iddi hi o gwbl, ac roedd e'n eitha swil gyda hi.

'Dewch,' meddai Michael. Roedd e'n pwyntio at ei watsh oedd yn bipian fel llong danfor. Mae gan Michael watsh arbenig sy'n dweud wrtho fe pryd mae'r bws nesaf yn dod. Ei phwrpas yw ei helpu i gyrraedd llefydd yn brydlon, ond yr unig beth dwi wedi gweld y watsh yn ei wneud yw achosi iddo fe daro yn erbyn pethau'n brydlon!

'Na! Arhoswch!' dywedais i. A chyn i fi feddwl gormod am y peth, dyma fi'n rhedeg draw at y fan ble roedd y bachgen newydd yn sefyll.

'Helô!' dywedais, gan gyffwrdd â'i ysgwydd e.

Edrychodd Mrs Khan a'r fenyw yn y sgarff goch i lawr arna i wrth i fi estyn i 'mhoced am y losin lemwn sherbert. "Co ti!" dywedais, a'i ddal o'i flaen. Teimlais dipyn bach o gywilydd oherwydd roedd y losin yn fflwff i gyd erbyn hyn. Ond roedd e'n dal yn flasus. Dyna'r peth da am losin lemwn sherbert. Does dim ots pa olwg sydd arnyn nhw, maen nhw'n dal i flasu'n ardderchog.

Dwi'n meddwl efallai 'mod i wedi siarad yn rhy uchel oherwydd camodd y bachgen newydd yn ôl fel pe bai e wedi cael ofn.

'Mae'n iawn, Ahmet, cymer un,' meddai'r fenyw, gan wneud ystumiau â'i dwylo, fel pe bai hi'n siarad iaith arwyddo.

Ond cydiodd y bachgen newydd yn ei llaw'n wylt a chuddio'i wyneb y tu ôl i'w braich hi. Do'n i ddim yn gwybod beth i'w wneud, oherwydd dwi erioed wedi codi cymaint o ofn ar rywun o'r blaen nes eu bod nhw eisiau cuddio. Siaradodd y fenyw ag e mewn llais mwyn eto, ac ar ôl eiliad neu ddwy, cymerodd e'r losin ac edrych i fyw fy llygaid i gyda'i lygaid llew, cyn cuddio eto.

'Diolch,' meddai'r fenyw. Edrychodd hi arna i a gwenu. Ro'n i'n hoffi'i llygaid brown tywyll am eu bod

nhw'n edrych yn garedig, a'i bochau pinc. Ond y peth ro'n i'n ei hoffi orau amdani oedd y ffordd roedd ei gwallt melyn hir hi'n chwyrlio o gwmpas yn y gwynt o dan ei het. 'Bydd Ahmet yn mwynhau hwnna ar ei ffordd adref.'

Nodiais fy mhen a rhedeg 'nôl at Josie, Tom a Michael, oedd yn aros amdana i. Ro'n i'n teimlo'n hapus dros ben am fod Mrs Khan wedi gwenu arna i gyda phob darn o'i hwyneb ac roedd hi wedi wincio arna i hefyd – fel y byddai Dad yn arfer gwneud pan oedd e'n meddwl 'mod i wedi gwneud rhywbeth da, neu pan fyddai e'n tynnu coes Mam. Pan fydda i'n fawr, dwi'n mynd i wincio ar bobl fel roedd e'n arfer gwneud a bydda i'n gwneud i bobl deimlo'n arbennig hefyd. Ac wrth i ni fynd adref, penderfynais 'mod i'n mynd i roi cymaint o wincs ag y gallwn yfory i'r bachgen newydd, bob tro y byddai e'n edrych arna i.



Wincio Bob Gafael

Y diwrnod nesaf, a'r diwrnod wedyn, a'r diwrnod ar ôl hwnnw, dyma fi'n gwenu ar y bachgen newydd a rhoi winc gyfeillgar iddo fe, mor aml ag y gallwn i. Fy nod oedd rhoi o leiaf bedwar deg o wincs iddo bob dydd, am fod Mam yn dweud mai dyna faint sydd ei angen ar bawb, ond ar ôl tipyn, roedd fy aeliau'n dechrau teimlo'n rhyfedd. Ro'n i'n gallu dweud bod y bachgen newydd yn meddwl fod hyn yn ddiddorol am ei fod e wedi stopio edrych ar bawb arall, ac roedd e'n edrych arna i drwy'r amser. Ond gwelodd Michael fi'n ceisio wincio â'r ddwy lygad, un ar ôl y llall, a dweud 'mod i'n edrych fel pe bai angen gweld doctor arna i. Y rheswm wnaeth e ddweud hynny yw 'mod i ddim yn gallu wincio crystal â'r llygad chwith ag yr ydw i â'r llygad

nhw'n edrych yn garedig, a'i bochau pinc. Ond y peth ro'n i'n ei hoffi orau amdani oedd y ffordd roedd ei gwallt melyn hir hi'n chwyrlïo o gwmpas yn y gwynt o dan ei het. 'Bydd Ahmet yn mwynhau hwnna ar ei ffordd adref.'

Nodiais fy mhen a rhedeg 'nôl at Josie, Tom a Michael, oedd yn aros amdana i. Ro'n i'n teimlo'n hapus dros ben am fod Mrs Khan wedi gwenu arna i gyda phob darn o'i hwyrneb ac roedd hi wedi wincio arna i hefyd – fel y byddai Dad yn arfer gwneud pan oedd e'n meddwl 'mod i wedi gwneud rhywbeth da, neu pan fyddai e'n tynnu coes Mam. Pan fyddai i'n fawr, dwi'n mynd i wincio ar bobl fel roedd e'n arfer gwneud a byddai i'n gwneud i bobl deimlo'n arbennig hefyd. Ac wrth i ni fynd adref, penderfynais 'mod i'n mynd i roi cymaint o wincs ag y gallwn yfory i'r bachgen newydd, bob tro y byddai e'n edrych arna i.



Wincio Bob Gafael

Y diwrnod nesaf, a'r diwrnod wedyn, a'r diwrnod ar ôl hwnnw, dyma fi'n gwenu ar y bachgen newydd a rhoi winc gyfeillgar iddo fe, mor aml ag y gallwn i. Fy nod oedd rhoi o leiaf bedwar deg o wincs iddo bob dydd, am fod Mam yn dweud mai dyna faint sydd ei angen ar bawb, ond ar ôl tipyn, roedd fy aelïau'n dechrau teimlo'n rhyfedd. Ro'n i'n gallu dweud bod y bachgen newydd yn meddwl fod hyn yn ddiddorol am ei fod e wedi stopio edrych ar bawb arall, ac roedd e'n edrych arna i drwy'r amser. Ond gwelodd Michael fi'n ceisio wincio â'r ddwy lygad, un ar ôl y llall, a dweud 'mod i'n edrych fel pe bai angen gweld doctor arna i. Y rheswm wnaeth e ddweud hynny yw 'mod i ddim yn gallu wincio cystal â'r llygad chwith ag yr ydw i â'r llygad

dde. Felly penderfynais roi'r gorau i winicio drwy'r amser.

Yr wythnos honno, roedd Mrs Khan yn ein dysgu am ffotosynthesis a chafodd pob un ohonom ni botyn bach â hedyn ynddo fe i ofalu amdano. Roedd pawb wedi cyffroi, oherwydd dywedodd hi y byddai gwobr i'r un oedd wedi tyfu'r planhigyn gorau. Cafodd y bachgen newydd un, hyd yn oed, a dwi'n meddwl fod hynny wedi'i wneud e'n hapus am ei fod yn edrych arno drwy'r amser. Gwnes i drïo sibrawd llawer o eiriau calonogol fel 'enfys' a 'popcorn' a 'malws melys' wrth fy mhlanhigyn i, oherwydd dwi wedi darllen rywle bod planhigion yn tyfu'n gynt os ydych chi'n dweud wrthyn nhw am bethau hapus. Do'n i erioed wedi ennill gwobr o'r blaen. Ddim hyd yn oed yn y ffair. Ro'n i'n meddwl y gallwn i ennill y tro hwn, pe bawn i'n trio'n galed iawn ac yn dal ati i siarad â'r planhigyn. Ac os na fyddwn i'n ennill, wel, byddwn eisïau i'r bachgen newydd ennill, oherwydd roedd e fel pe bai e wir yn hoffi'r planhigyn hwnnw.

Ond ro'n i'n gofidio am Brendan-y-Bwli-Brooker. Fe yw Bwli'r Dosbarth. Mae ei fochau e'n goch drwy'r amser, am ei fod e'n treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn

rhedeg ar ôl unrhyw un sy'n llaj na fe ar y buarth. Dyw e ddim yn glyfar iawn ac mae e'n casáu unrhyw un sy'n glyfar. Os oes unrhyw un yn cael y marc uchaf yn y dosbarth neu'n ennill gwobr, bydd e'n ceisio eu bwrw nhw pan fyddai hi'n amser mynd adref. Sylwais arno'n edrych ar blanhigyn Ahmet ac yn culhau ei lygaid, fel mae e'n gwneud bob amser pan fydd e'n meddwl am rywbeth cas i'w wneud. Do'n i ddim yn hoffi hynny o gwbl.

Ei dric mwyaf arferol yw eich baglu chi â'i droed. Mae e hefyd yn hoffi tipio eich hambwrdd cinio wrth iddo fe gerdded heibio, nes bod eich bwyd yn rhedeg i lawr eich brest fel melynwy. Mae e wedi gwneud hynny i fi sawl tro. Weithiau bydd e'n cael ei ddal. Ond fel arfer fydd e ddim. A hyd yn oed pan fydd e'n cael ei ddal, dyw e ddim yn cael cosb aros ar ôl ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn ei hoffi, yn ôl pob golwg. Y rheswm am hynny efallai yw ei fod e'n edrych fel un o'r bechgyn hynny sy'n canu mewn côr eglwys ar y teledu pan fydd e'n gwenu. Roedd Mr Thompson yn arfer ei alw'n 'rasgal' – a rhaid bod hwnnw'n air da am ei fod e'n rhoi winc i Brendan-y-Bwli ac yn ei daro'n gyfeillgar ar ei gefn a gadael iddo redeg i ffwrdd eto bob

tro y byddai'n dweud y gair. Roedd hynny'n gwneud i bawb arall yn y dosbarth – pawb ond Liam a Chris, unig ffrindiau Brendan-y-Bwli – ei gasáu e hyd yn oed yn fwy. Mae hŷ yn oed y bwll yn y dosbarthiadau uwch yn meddwl ei fod e'n annifyr. Rhyfedd fod bwllis ddim yn hoffi bwllis eraill. Efallai bod y bwllis eraill yn eu stopio nhw rhag teimlo'n sbesial. Ond yn yr ysgol mae pawb yn gwybod pwy yw'r bwllis, a phwy maen nhw'n hoffi'u bwllio, a sut dyw'r un bwllis ddim yn cael mynd ar ôl yr un person. Mae'n system ryfedd. Ond dyna'r rheolau, ac mae pawb yn glynu wrthyn nhw. Hyd yn oed yr athrawon.

Ond mae Mrs Khan yn wahanol.

Dyw hi ddim fel petai hi'n hoffi Brendan-y-Bwli gymaint â'r athrawon eraill. Mae hi'n ei wyllo drwy'r amser, a byth ers i ni ddod i'w dosbarth hi, mae e wedi bod yn ofalus i beidio â gwneud dim byd pan fydd hi o gwmpas. Ond dwi'n mynd i ddal ati i gadw llygad arno fe.

Yn fuan ar ôl i'r bachgen newydd ymuno â'n dosbarth ni, dechreuodd llawer o straeon amdano fynd o gwmpas yr ysgol fel gêm hud o basio'r parsel.

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn credu Jennie ac yn

dweud bod yn rhaid bod y bachgen newydd yn beryglus, a dyna pam ei fod e byth yn cael mynd mas. Ond wedyn dechreuodd ambell un arall ddweud fod ganddo fe haint oedd yn hawdd iawn ei ddal, a dyna'r rheswm go iawn pam nad oedd neb i fod i siarad ag e. Cafodd Clarissa gymaint o ofn y stori am yr haint nes iddi ddechrau trio eistedd mor bell i ffwrdd oddi wrtho ag y gallai hi heb godi o'i chadair. Unwaith, pwysodd drosodd mor bell nes iddi gwympo'n glatsh ar y llawr! Wnaeth hi ddim pwyso drosodd hanner cymaint ar ôl hynny, ond byddai hi'n codi'i breichiau neu'n defnyddio llyfr gwaith fel sgrin bob amser.

Do'n i ddim yn meddwl fod y bachgen newydd yn edrych yn beryglus o gwbl, nac yn edrych fel pe bai ganddo haint marwol, felly y stori oedd yn swmio fwyaf credadwy i fi oedd ei fod e'n dod o deulu cyfoethog dros ben, a bod ei rieni wedi'i anfon i'n hysgol ni yn ddirgel er mwyn ei arbed rhag cael ei herwgipio. Mae Michael yn dweud na fydd herwgipwyr yn dod i'n hysgol ni i edrych amdano fe am nad yw hon yn ardal posh iawn, ac roedd Tom yn cytuno. Dywedodd e fod ei frodyr hŷn wedi dweud, ar ôl iddyn nhw symud o America, bod yn rhaid eu bod nhw'n dlawd nawr, am

eu bod nhw'n mynd i fyw ym Mhen Tlawd Llundain, nid y Pen Cyfoethog. Do'n i ddim wir yn deall beth oedd e'n meddwl, oherwydd does dim pen gan Lundain. Ar y map, mae'n edrych fel blob o jam sydd wedi sarnu.

Ro'n i eisiau gofyn i'r bachgen newydd oedd y stori am yr herwigipwyr yn wir, ac oedd angen i ni fod yn warchodwyr iddo fe. Ond roedd e'n dal i wneud ei holl wersi ar ei ben ei hun, a byddai e'n diflannu bob amser egwyl ac amser cinio, felly doedd neb heblaw am Clarissa'n gallu siarad ag e. A doedd hi ddim eisiau gwneud! Gwnes fy ngorau glas i drio dal ei lygad er mwyn gallu gwenu a sibwrdd 'helô', ond gwnaeth Mrs Khan fy nal i a dweud y dylwn dalu sylw i'r gwaith.

Y tro nesaf dyma fi'n trio anfon nodyn siâp awyren bapur ato fe - dwi'n dda am eu gwneud nhw - ond hedfanodd ar gam a glanio ar ben Nigel. Mae e'n glapiwr, ac aeth i ddweud wrth Mrs Khan ar unwaith. Dwi ddim yn hoffi clapwyr am eu bod nhw fel petaen nhw'n hoffi cael pobl i drafferth yn fwy na dim byd arall yn y byd, ac mae ganddyn nhw wên ar eu hwynebau bob tro y byddan nhw'n gwneud. Daeth Mrs Khan a mynd â'r nodyn, a'i ddarllen yn dawel. Ysgydwodd ei phen arna i, ond dwi'n meddwl ei bod hi'n meddwl fod

y darlun wnes i'n ddoniol oherwydd daeth siâp gwen fechan fach i'w cheg, a dim ond fi oedd yn gallu'i gweld. Er mod i ddim wedi cael stŵr, ro'n i'n gwybod y byddai hi'n rhy beryglus i anfon rhagor o negeseuon drwy 'post awyr'. Yn enwedig gyda chlapwyr o gwmpas.

Y diwrnod nesaf, amser chwarae, penderfynodd Josie, Tom, Michael a fi ddilyn y bachgen newydd i weld ble roedd e'n mynd. Ond daliodd Mrs Khan ni'n ei ddilyn e drwy'r coridorau a dweud wrth y pedwar ohonom am beidio â gwneud hynny eto. Doedd hi ddim yn grac, ond dywedodd fod angen i'r bachgen newydd gael ei 'Neilltuo' am ychydig mwy o amser, ac mai er ei les ei hun roedd hynny, felly dyma ni'n addo peidio â'i ddilyn eto.

'Beth yw ystyr "Neilltuo"?' gofynnodd Josie pan oedden ni 'nôl ar y buarth. Doedd neb yn gwybod yn iawn, ddim hyd yn oed Michael, er iddo fe ddweud ei bod hi'n swnio fel pe bai angen i'r bachgen newydd gael triniaeth breifat fel rhywun sâl iawn mewn ysbyty, felly efallai ei fod e'n dioddef o haint wedi'r cyfan.

Ond cyn hir fel wnaethon ni ddysgu ystyr go iawn y gair Neilltuo, a pham fod cymaint o angen hwnnw ar y bachgen newydd.



Beth Ddywedodd Mr Brown a Mrs Grimsby

Byddai fy nhad yn arfer dweud os ydych chi wir, wir eisiau rhywbeth, rhaid i chi ddal ati i drio. Ac am ei fod e wastad yn dweud fod ganddo fe bopeth roedd e erioed wedi dymuno'i gael, rhaid ei fod e'n gwybod popeth am drio cael pethau.

Ro'n i'n gwybod 'mod i eisiau bod yn ffrind i Ahmet. Do'n i ddim yn gwybod pam, ond ro'n i'n sicr 'mod i eisiau. Dyma fi'n rhoi'r gorau i geisio siarad ag e yn ystod y dydd – oherwydd yr holl Neillruo oedd angen arno fe – ond meddyliais y byddai ar ôl ysgol yn iawn, am fod Mrs Khan wedi gwenu arna i a wincio, y tro cyntaf hwnnw. Felly bob dydd am bythefnos gyfan,

arhosais ger clwyd yr ysgol adeg mynd adref.

Pan fyddai'r bachgen newydd a Mrs Khan yn dod mas i gwrdd â'r fenyw yn y sgarff goch, byddwn i'n rhedeg draw yn syth a rhoi losin lemwyn sherbert i'r bachgen newydd – ac ambell waith, bar cyfan o siocled. Ond doedd dim ots faint o losin fyddwn i'n eu rhoi iddo fe, na faint y byddai Mrs Khan yn ei annog e i siarad â fi, doedd y bachgen newydd byth yn dweud gair, a doedd e byth, byth yn gwenu'n ôl. Ddim hyd yn oed pan wnes i roi pecyn cyfan o lygod gwyn iddo fe, a dyna fy hoff losin i. Gwnaeth e gymryd y losin yn dawel, heb godi'i lygaid o'r llawr, a mynd i sefyll y tu ôl i'r fenyw yn y sgarff goch, fel tasai e'n ceisio cuddio oddi wrtha i.

'Falle fod e ddim yn hoffi losin,' awgrymodd Michael, ar ddydd Gwener yr ail wythnos.

'Paid siarad yn dwp,' dywedodd Josie, gan gnoi'i gwallt. 'Mae pawb yn hoffi losin!'

'Falle fod gydag e alergedd?' dywedodd Tom. Do'n i erioed wedi clywed am neb oedd ag alergedd i siocled a losin o'r blaen, ond dyna ni, roedd gen i alergedd i gŵn, yn wahanol i bawb arall. Efallai fod Tom yn iawn.

Ar ôl hynny, penderfynais roi fy ffrwythau amser

cinio i'r bachgen newydd yn lle fy losin. Roedd e'n dal i fynd i Neilltuo bob amser cinio, felly ar ddydd Llun y drydedd wythnos o drio bod yn ffrind iddo, dyma fi'n mynd â'r oren mwyaf allwn i ei weld o ffreutur yr ysgol ac aros ar bwys y glwyd. Ro'n i'n fwy cyffrous nag erioed, oherwydd 'mod i wedi gwneud llun wyneb yn gwenu ar groen yr oren, ac roedd Tom wedi rhoi sticer deinosor i lynu arno fe – felly dyna ddau beth oedd yn gwneud yr oren yn arbennig iawn. Mae Tom yn dwlu casglu sticeri – mae ganddo fe lyfrau'n llawn ohonyn nhw gartre a phan fydd e'n cael un newydd mae e'n ei hoffi, bydd e'n dod â hwnnw i mewn i ni gael gweld. Dwi erioed wedi'i weld e'n rhoi sticer i rywun dyw e ddim yn nabod yn dda iawn o'r blaen, felly gobeithio y byddai'r bachgen newydd yn ei hoffi ac yn gwybod mor sbesial oedd e.

Ond wrth i ni aros i'r bachgen newydd ddod mas, dyma ni'n clywed rhywbeth amdano fe do'n ni ddim yn deall o gwbl. A dweud y gwir, roedd hyn hyd yn oed yn fwy dryslyd na dysgu am y Neilltuo roedd e'n ei gael.

Roedd llawer o oedolion yn sefyll y tu ôl i ni ar bwys y glwyd – fel hynny mae hi bob amser adeg mynd adref. Weithiau byddan nhw'n siarad am y newyddion, neu

beth fyddan nhw'n ei baratoi i swper. Ond fel arfer maen nhw'n siarad am y tywydd. Dwi ddim yn gwybod pam, efallai am fod dim byd mwy diflas na siarad am rywbeth mae pawb arall yn gallu'i weld drostyn nhw eu hunain, ond am wn i mai dyna mae pawb i fod i wneud pan fyddwch chi'n dod yn oedolyn.

Fel arfer fyddwn ni ddim yn gwrando oherwydd mae pethau mwy diddorol gyda ni i siarad amdany'n nhw, fel beth fyddwn ni'n ei wyllo pan awn ni adref, a phwy yw ein hoff athletwr Olympaidd neu bêl-droediwr. Ond y prynhawn hwn, ar ôl i rywun ddweud mor heulog a braf oedd hi a gobeithio y byddai hi'n braf eto yfory, dywedodd rhywun arall, 'Ydych chi wedi clywed am y crwt o ffoadur sy wedi dod i'r ysgol? Maen nhw wedi'i roi e yn nosbarth Mrs Khan. Dydyn nhw ddim yn gallu dod o hyd i gynorthwyydd sy'n siarad yr un iaith ag e. Druan bach!'

Edrychodd Josie, Michael a Tom draw arna i ac edrychais i yn ôl amyn nhw, ac yna safodd pob un ohonom ni'n llonydd iawn ar bwys ein gilydd. Ro'n i'n gwybod ein bod ni'n meddwl yr un peth yn union, oherwydd daeth gwg i'n hwynebau ni bob un yr un pryd yn union: ro'n ni'n pendroni beth roedd Crwt o

Ffoadur yn ei wneud yn ein dosbarth ni.

Wedyn dywedodd y fenyw oedd wedi bod yn siarad am yr haul, 'Bydd trwbwl - credwch chi fi. Dim ond dod draw i ddwyn ein swyddi ni maen nhw!'

Yn ofalus, rhag i neb ein gweld ni, edrychon ni dros ein hysgwyddau a gweld mai Mr Brown a Mrs Grimsby oedd yn siarad.

Cododd Mr Brown ei ysgwyddau a dweud, 'Os yw e wedi dod o'r rhyfel ofnadwy 'na sy ar y newyddion, dwi'n teimlo trueni dros y crwt. All neb roi bai arnyn nhw am fod eisiau dianc o'r lladdfa yna.'

'Hmff!' dywedodd Mrs Grimsby. 'Trafferth, pob un ohonyn nhw! Fyddwn i, ddim yn ymddiried modfedd yn neb ohonyn nhw. Aros di - ein plant ni fydd yn dioddef, achos mae'r rhain yn dod draw fan hyn i wneud fel y mynnan nhw ...' Ro'n i'n gallu dweud fod Mr Brown ddim yn hoffi beth roedd hi'n ei ddweud, oherwydd gwgodd ac ysgwyd ei ben a chamu i un ochr.

Dwi'n hoffi Mr Brown. Tad Charlie yw e. Un o fechgyn yr ysgol fawr yw Charlie. Mae pawb yn gwybod pwy yw e am ei fod e wastad yn dwyn o leiaf dri pwdin o'r troli pwdin bob amser cinio, a does dim digon i bawb arall wedyn. Mae e'n enwog hefyd am seinio'r

larwm tân er mwyn peidio gorfod sefyll prawf gwyddoniaeth. Mae e mewn trafferth drwy'r amser. Ond dwi ddim yn meddwl bod Mr Brown yn gwybod am y pethau hyn oherwydd pan fydd e'n gweiddi, 'Charlie, grwt! Be' ti wedi gwneud heddi?', a bydd Charlie'n dweud 'dim byd', mae Mr Brown yn gwenu'n llydan arno. Mae Charlie'n dweud wrth bawb fod ei dad e'n bocsio, ond dwi ddim yn meddwl fod hynny'n wir. Mae barf hir gydag e, ac os oeddwn i'n baffiwr yn ymladd yn ei erbyn, byddwn i'n tynnu'r barf drwy'r amser, ac ennill.

Fe wnes i edrych i'r dde ar Mrs Grimsby. Roedd ei hwyneb yn sur a phinc a chrac, a dyma fi'n penderfynu 'mod i ddim yn ei hoffi hi rhyw lawer. Hi yw mam-gu merch o'r enw Nelly sy'n y flwyddyn o dan ein dosbarth ni. Nelly yw un o'r merched mwyaf poblogaidd yn yr ysgol, yn bennaf achos hi sydd wedi ennill pob cystadleuaeth torri gwynt sydd erioed wedi digwydd yn yr ysgol. Mae hi hyd yn oed yn gallu torri gwynt i ganeuon enwog, ac mae hi wastad yn herio pobl i drio gwneud yn well na hi.

Ro'n i'n edrych ar Mrs Grimsby ac yn meddwl am y pethau roedd hi wedi dweud pan wasgodd Josie fy

mraich. 'Edrych!'

Pan edrychais drwy'r reilins roedd Mrs Khan a'r bachgen newydd allan yn y buarth, yn siarad â'r fenyw yn y sgarff goch yn barod. Felly dyma fi'n rhedeg nerth fy nhraed er mwyn rhoi'r oren sbesial i'r bachgen newydd.

Fel arfer, wnaeth e ddim dweud diolch, na gwenu, ond gwelais ei lygaid yn agor yn fawr pan welodd e'r llun o wyneb gwên a'r sticer ar yr oren. Ac am y tro cyntaf erioed, edrychodd e arna i â'i lygaid llew, a wnaeth e ddim troi i ffwrdd. Dyna pryd y sylweddolais nad oedd e'n fy ofni i ddim mwy.

Fe wnes i syllu'n ôl a rhoi gwên fach. Ro'n i eisiau iddo fe wybod bod dim ots gen i mai Crwt o Ffoadur oedd e. Ro'n i eisiau bod yn ffrind iddo fe o hyd. Dwi'n meddwl ei fod e wedi deall, oherwydd nodiodd ei ben yn dawel bach arna i, heb i neb arall weld. Ro'n i'n flin na wenodd e 'nôl, oherwydd yr unig ffordd ry'ch chi'n gwybod yn siŵr fod rhywun yn ffrind i chi yw pan fyddan nhw'n eich hoffi ddigon i wenu'n ôl. Ond roedd pethau'n iawn, oherwydd roedd y nodio pen bach yn teimlo fel addewid, ac ro'n i'n gwybod na fyddai dim angen aros yn rhy hir cyn y byddai'r wên yn digwydd.



Y Crwt o Ffoadur

Pan gyrhaeddais i gartre y noson honno, arhosais ar ddi-hun am gymaint ag y gallwn i nes i Mam ddod adre o'r gwaith. Mae hi wastad yn hanner awr wedi naw erbyn iddi hi ddod i mewn ar ddydd Llun oherwydd nos Lun yw'r noson hwyr yn y llyfrgell. Dwi i fod yn y gwely erbyn hynny neu bydd hi'n mynd yn grac, ond doedd dim ots gen i gael stŵr – dim os byddai'n meddwl 'mod i'n dysgu beth oedd wedi gwneud i'r bachgen newydd fod yn Crwt o Ffoadur a pham roedd Mrs Grimsby'n meddwl eu bod nhw'n creu trafferth ac yn dŵyn swyddi pobl drwy'r amser.

Ar y bws adre, dywedodd Michael fod pob Crwt o Ffoadur yn dod o beyll mawr yn y diffeithwch. Ond wedyn dywedodd Josie fod dim hawl gan neb i fyw

mraich. 'Edrych!'

Pan edrychais drwy'r reilins roedd Mrs Khan a'r bachgen newydd allan yn y buarth, yn siarad â'r fenyw yn y sgarff goch yn barod. Felly dyma fi'n rhedeg nerth fy nhraed er mwyn rhoi'r oren sbesial i'r bachgen newydd.

Fel arfer, wnaeth e ddim dweud diolch, na gwenu, ond gwelais ei lygaid yn agor yn fawr pan welodd e'r llun o wyneb gwên a'r sticer ar yr oren. Ac am y tro cyntaf erioed, edrychodd e arna i â'i lygaid llew, a wnaeth e ddim troi i ffordd. Dyna pryd y sylweddolais nad oedd e'n fy ofni i ddim mwy.

Fe wnes i syllu'n ôl a rhoi gwên fach. Ro'n i eisiau iddo fe wybod bod dim ots gen i mai Crwt o Ffoadur oedd e. Ro'n i eisiau bod yn ffrind iddo fe o hyd. Dwi'n meddwl ei fod e wedi deall, oherwydd nodiodd ei ben yn dawel bach arna i, heb i neb arall weld. Ro'n i'n flin na wenodd e 'nôl, oherwydd yr unig ffordd ry'ch chi'n gwybod yn siŵr fod rhywun yn ffrind i chi yw pan fyddan nhw'n eich hoffi ddigon i wenu'n ôl. Ond roedd pethau'n iawn, oherwydd roedd y nodio pen bach yn teimlo fel addewid, ac ro'n i'n gwybod na fyddai dim angen aros yn rhy hir cyn y byddai'r wên yn digwydd.



Y Crwt o Ffoadur

Pan gyrhaeddais i gartre y noson honno, arhosais ar ddi-hun am gymaint ag y gallwn i nes i Mam ddod adre o'r gwaith. Mae hi wastad yn hanner awr wedi naw erbyn iddi hi ddod i mewn ar ddydd Llun oherwydd nos Lun yw'r noson hwyr yn y llyfrgell. Dwi i fod yn y gwely erbyn hynny neu bydd hi'n mynd yn grac, ond doedd dim ots gen i gael stŵr – dim os byddai'n meddwl 'mod i'n dysgu beth oedd wedi gwneud i'r bachgen newydd fod yn Crwt o Ffoadur a pham roedd Mrs Grimsby'n meddwl eu bod nhw'n creu trafferth ac yn dŵyn swyddi pobl drwy'r amser.

Ar y bws adre, dywedodd Michael fod pob Crwt o Ffoadur yn dod o beyll mawr yn y diffeithwch. Ond wedyn dywedodd Josie fod dim hawl gan neb i fyw

mewn pabell yn Lloegr heblaw pan oedden nhw'n mynd ar wyliau gwersylla, oherwydd roedd yn erbyn y gyfraith. A dywedodd Tom ei fod e wedi clywed am ffoaduriaid ar y teledu, ond doedd e ddim yn cofio pam ro'n nhw'n rhedeg i ffwrdd, a bod dim diffeithwch â llawer o bebyll ynddo fe ym Mhrydain, beth bynnag.


Roedd popeth yn ddryslyd iawn, ond ro'n i'n gwybod y byddai Mam yn gwybod am ei bod hi'n gweithio mewn llyfrgell, ac mae llyfrau am bopeth mewn llyfrgelloedd.

Mae fy mam i'n anhygoel a hi yw'r person mwyaf clyfar dwi'n ei nabod – hyd yn oed yn fwy clyfar na Mrs Khan. Mae ganddi ddwy swydd – llyfrgellydd yw hi yn ystod yr wythnos ac wedyn ar ddydd Sadwrn mae hi'n ofalwraig. Mae hi'n edrych ar ôl pobl sy'n methu cerdded na bwyta na chofio pethau'n iawn, sy'n rhy sâl i fyw ar eu pen eu hunain. Oherwydd bod yn rhaid i Mam weithio drwy'r amser, fydda i ddim yn gweld llawer ohoni – dim ond ar ddydd Sul. Dydd Sul yw ein dyddiau Antur Arbennig – ro'n ni'n arfer eu cael nhw drwy'r amser gyda Dad. Bob tro y byddai e'n cael diwrnod i ffwrdd, byddai'n deffro ni'n gynnar, yn paratoi pecyn bwyd ac i ffwrdd â ni yn y car i gael antur! Fel arfer bydden ni'n mynd i lan y môr neu i barc

saffari, neu os oedd y tywydd yn oer, byddai bowlïo neu weld ffilm yn gwneud y tro.

Dydyn ni ddim wir yn gallu fforddio gwneud dim o'r pethau yna erbyn hyn, oherwydd pan oeddwn i'n chwech oed, cafodd Dad ei ladd mewn damwain car. Weithiau, dwi'n poeni 'mod i'n ei anghofio e, er 'mod i'n gweld ei eisiau bob dydd. Ond pan fydda i'n meddwl yn galed ac yn plymio i ran fwyaf dwfn fy ymennydd, mae e'n dal yno. Fe oedd y tad mwyaf doniol erioed. Roedd e'n arfer bod yn saer coed a byddai e'n dwlu adeiladu pethau o unrhyw beth allai e ddod o hyd iddo.

Dyma sut mae Dad yn edrych yn fy nghof:



Roedd e wastad yn siarad mwy na Mam ac un o'i hoff bethau oedd dyfeisio straeon. Ond yn fwy na dim, roedd e'n dwlu gwrando ar gerddoriaeth. Roedd casgliad enfawr ganddo fe a byddai e byth a hefyd yn trwsio'r chwaraewr recordiau hen ffasiwn roedd Dad-cu wedi'i brynu iddo fe ar ei ben-blwydd yn dair ar ddeg. Fe ddysgodd fi sut i chwarae'r disgiau mawr du arno fe a sut i roi sglein cywir ar y corn sain mawr aur.

Roedd Mam yn mynd i werthu'r chwaraewr llynedd i helpu talu'r biliau - oherwydd mae'n debyg fod pethau hen yn werth mwy o arian. Dim ond pethau, wrth gwrs - nid pobl. Ond yn lwcus, gwnaeth Wncwl Lenny wneud iddi ei roi i fi yn lle hynny. Wncwl Lenny yw brawd Mam a fe yw'r ewythr gorau yn y byd, er ei fod e wedi priodi ag Anti Christina, a dwi ddim yn ei hoffi hi rhyw lawer, na'u mab, Jacob, sy'n hoffi torri pethau. Mae Wncwl Lenny'n gwneud ei orau i ddod i'n gweld ni o leiaf unwaith yr wythnos, fel arfer ar ei ben ei hun. Bydd e wastad yn gofyn oes angen unrhyw beth arna i. Dwi'n caru hynny. Ac fe wna i ei garu am byth am fy helpu i gadw chwaraewr recordiau Dad. Yn fy stafell i mae e nawr, ond fydda i byth yn chwarae cerddoriaeth arno fe oni bai fod Mam allan o'r tŷ. Dyw hi ddim yn

hoffi pan fydda i'n ei ddefnyddio. Mae'n ei hatgoffa ormod o Dad, dwi'n meddwl, pan fydden nhw'n dawnsio ar ôl iddo fe wneud bwrdd a chadeiriau da, ac mae'n ei gwneud hi'n rhy drist.

Ro'n i wedi bod yn chwarae un o hoff hen recordiau Dad i stopio cwsgr rhag dod, pan glywais sŵn allwedd Mam yn nhwll y clo. Mae'n hawdd dweud mai allwedd Mam sy'n y drws, nid un Wncwl Lenny, achos mae'n gwneud sŵn tincial. Diffoddais y gân yn gyflym a rhedeg i'r stafell fyw.

'Wel, helô, mwrddrwyg!' dywedodd Mam. Ro'n i'n gallu dweud ei bod hi wedi cael syrpreis o 'ngweld i, achos diflannodd ei haeliau lan o dan ei gwallt. 'Pam wyt ti ar dy draed mor hwyr?'

'Dwi ddim yn gallu cysgu,' dywedais.

'O!' dywedodd hi. Wrth roi cwtsh i fi, edrychodd arna i â gwsg a rhoi'i llaw ar fy nhalcen. Bydd hi wastad yn cyffwrdd â 'nhalcen pan fydd hi'n gofidio amdana i.

'Dwyt ti ddim yn teimlo'n dost, wyt ti?'

Siglais fy mhen.

'Wyt ti wedi cael dy swper?'

Nodiais. Fel arfer bydda i'n cael tun o gawl a rôl o fara i swper pan fydd Mam ddim yn gallu dod adre

mewn pryd. Bydd Mrs Abbey drws nesaf yn dod i mewn i helpu pan fydd hi'n gwybod 'mod i ar fy mhen fy hun. Mae hi'n hen, ac mae cerdded yn anodd iddi hi, ond weithiau bydd hi'n gwneud ffish ffingyr i fi os yw hi'n teimlo'n iawn. Fy hoff gawl yw cawl tomato, am ei fod yn fy atgoffa o sos coch. Sos coch yw un o fy hoff bethau i'w fwyta yn y byd. Gallwch chi roi blob o sos coch ar unrhyw fwyd sydd ddim yn bwdin, ac rwy'n betio fy arian poced y bydd y bwyd yn blasu'n well ar unwaith! Mae sos coch yn drydydd ar fy rhestr o'r bwydydd gorau, ar ôl siocled a hufen iâ sy'n dod mewn côn o'r fan hufen iâ.

'Wel, 'te,' dywedodd Mam, gan roi'i bagiau ar y llawr. 'Tybed fydd tipyn bach o de mochyn yn gwneud y tric? Dere i gadw cwmni i fi wrth i fi gael te. Does dim llawer o chwant bwyd arna i heddiw.'

Te mochyn yw enw ein teulu ni ar siocled poeth ac mae'n hyfryd. Dilynaïs Mam i'r gegin a'i gwylio wrth iddi hi estyn y jar coco a llenwi'r tegell. Cyn i fi sylweddoli, dyma fi'n gofyn, 'Mam, beth yw Crwt o Ffoadur?'

Do'n i ddim wedi bwriadu poeri'r gair fel'na, ond weithiau bydd fy ngheg yn gwneud pethau cyn bod fy

ymennydd yn barod.

Stopiodd Mam a sylu arna i.

'Crwt o Ffoadur?' gofynnodd hi, gyda gwg ar ei hwyneb. 'Ble glywaist ti'r geiriau yna?'

'Ysgol,' dywedais i. 'Fe wnaeth rhywun alw'r bachgen newydd yn ein dosbarth ni'n Grwt o Ffoadur.'

'Mae bachgen newydd yn y dosbarth?'

Nodiais.

'A dydy Mrs Khan ddim wedi dweud dim byd amdano fe?'

Siglais fy mhen. 'Dim ond mai Ahmet yw ei'enw a dyw e ddim wedi bod i Lundain o'r blaen. Dwi wedi gwneud fy ngorau i fod yn ffrind iddo fe, ond dyw e ddim yn siarad â neb, felly dwi ddim yn gallu dweud ydi e eisiau bod yn ffrindiau gyda fi ...'

'Dwi'n gweld ...' Tawelodd Mam. Arllwysodd hi'r laeth i'r sosban laeth, ac aros iddo gynhesu. Ro'n i'n gwybod ei bod hi'n meddwl am ryw beth difrifol, achos roedd hi'n rhwbio'i gên. Dim ond pan fydd hi ar fin dweud rhywbeth difrifol y bydd Mam yn rhwbio'i gên. 'Mam?' sibrydais.

Ond aros yn dawel wnaeth Mam, a dechreuais i ofidio. Fel arfer bydd Mam yn ateb fy nghwestiynau ar

unwaith. Efallai fod enw Mr Brown am y bachgen newydd ddim yn beth neis i alw rhywun.

Wrth i fi aros am y te mochyn, es i i eistedd yn fy nghadair ac edrych allan drwy'r ffenest. Dyw ein fflat ni ddim yn fawr iawn ond mae bwrdd bach gyda ni ger y ffenest, a phedair cadair o'i gwmpas. Byddai i wastad yn eistedd yn y gadair wrth ochr yr oergell achos dwi'n hoffi gallu agor drws yr oergell heb orfod codi. Mae fel edrych i mewn i stafell arall yn y tŷ – ond un sy'n llawn bwyd!

Bob tro y byddai i'n mynd i dŷ Wncwl Lenny, byddai i wastad yn edrych yn ei oergell e, achos mae ei un e mor fawr mae bron yn cyrraedd nenfwd y gegin. Gallai Wncwl Lenny fyw yn ei oergell e, petai angen. Byddai'n rhaid iddo fe dynnu'r sillffoedd a'r bwyd allan, ond yn bendant byddai lle iddo fe fyw yno, ar ei draed, petai eisiau. Dwi'n meddwl mai peth da yw cael oergell ddigon mawr i sefyll ynddi. Mae'n golygu na fyddwch chi byth yn mynd yn brin o fwyd, fel bydd yn digwydd i ni weithiau. Ac os yw hi'n ddigon mawr, gallwch chi roi'r byd yn ei le ynddi hi.

Pan oedd Mam wedi gorffen paratoi'r siocled poeth a'i the hi, eisteddodd yn y gadair gyferbyn â fi, a thynnu

dau lwmp o siwgr o'r basn siwgr. Gan ddal y ddau ar lwy, chwyrliodd nhw i mewn i'r te mewn cylchoedd bach. Gwyliodd y ddau ohonom ni nhw'n mynd yn llai ac yn llai nes iddyn nhw ddiflannu.

'Mam ... alli di ddweud? Beth yw Crwt o Ffoadur – o ble maen nhw'n dod?'

Edrychodd Mam arna i. Mae ganddi hi o leiaf ugain edrychiad sy'n rhoi neges gudd i fi, a dwi'n gwybod ystyr pob un ohonyn nhw. Ystyr yr edrychiad hwn oedd *rho'r gorau i holi*. Wedyn dyma hi'n dweud, 'Wyt ti'n cofio'r badau achub yna ar y teledu, cariad? Y rhai lle roedd llawer o bobl wedi'u gwasgu i mewn, a tithau'n gofyn amdanyn nhw?'

Nodiais. Ganol y gwyliau haf oedd hi, ac roedd Mam a fi yn y lolfa. Roedd hi'n gwneud croesair, a minnau wedi bod yn lliwio lluniau, ac roedd y newyddion 'mlaen yn y cefndir. Yn sydyn, newidiodd sgrin y teledu o ddangos newyddiadurwraig yn sefyll ar draeth i fideo oedd yn dangos llawer o bobl mewn cychod yng nghanol môr, a phob un yn edrych yn ofnus iawn. Ro'n i wedi teimlo'n flin drostyn nhw, ac wedi gofyn i Mam beth oedd yn digwydd.

'Wyt ti'n cofio beth ddywedais i?' gofynnodd Mam.

'Dywedaist ti ... eu bod nhw'n ceisio dod o hyd i rywle newydd i fyw achos doedd eu cartref nhw ddim yn lle neis i fyw nawr.'

'Yn union, cariad bach. Ffoaduriaid yw enw pobl amdanyn nhw. Ac mae pobl yn galw plant fel y bachgen newydd yn dy ddosbarth di yn ffoaduriaid o blant achos maen nhw wedi gorfod gadael eu cartrefi a theithio'n bell iawn i drio dod o hyd i rywle newydd i fyw.'

'Fel Dena, ti'n meddwl?' gofynnais, gan feddwl tybed fyddai pobl yn galw Dena'n Groten o Ffoadur yn ei hysgol newydd hi hefyd. Roedd hi wedi symud i Gymru achos doedd ei mam a'i thad yn methu dod o hyd i dŷ yn Llundain.

Ysgwyd ei phen wnaeth Mam. 'Ddim yn union,' atebodd hi. 'Roedd mam a thad Dena eisiau symud. Roedd dewis ganddyn nhw, ac ro'n nhw eisiau byw mewn tŷ mwy o faint, a neisiach na'r tŷ oedd ganddyn nhw. Ond mae plant ffoaduriaid wedi cael eu gorfodi i redeg i ffwrdd - am fod pobl ddrwg wedi'i gwneud hi'n amhosib iddyn nhw aros. Mae'r bobl ddrwg yn gollwng bomiau ar eu tai nhw ac yn dinistrio holl rannau hardd eu dinasoedd. Ac mae'r tai lle'r oedd y ffoaduriaid yn arfer byw wedi troi'n llefydd mor ofnadwy a brawychus

fel nad ydyn nhw'n gallu byw yno ddim mwy. Felly byddan nhw'n cerdded am filltiroedd maith ac yn dringo i mewn i gychod er mwyn teithio i wledydd dydyn nhw erioed wedi bod iddyn nhw o'r blaen, a byddan nhw'n mynd i lefydd dieithr dydyn nhw ddim yn gwybod dim amdanyn nhw, er mwyn iddyn nhw ddod o hyd i rywle sy'n ddigon diogel i fyw.'

'O,' dywedais yn dawel. Tybed beth roedd y ffoaduriaid wedi gwneud wnaeth achosi i'r bobl ddrwg fod mor grac. Llunedd roedd dau o blant Blwyddyn Un wedi baglu Brendan-y-Bwli er mwyn dial arno fe'am redeg ar eu hól nhw, ac roedd hynny wedi'i wneud e mor grac nes ei fod e wedi rhwygo'u bocsys bwyd nhw ar agor a stompio ar bopeth oedd y tu mewn.

'Beth oedd y ffoaduriaid wedi gwneud, i'r bobl ddrwg fod eisiau'u brifo nhw?' gofynnais, gan ddychmygu pob math o bethau ofnadwy allai wneud i rywun fod eisiau gollwng bom ar eu cartrefi.

Ysgwyd ei phen wnaeth Mam. 'Dim byd o gwbl, cariad. Mae'r bobl ddrwg yn llawer cryfach na nhw, ac maen nhw'n hoffi teimlo'n fawr a grymus drwy'u bwlio nhw. Mae rhai pobl yn meddwl, ti'n gweld, fod mynd â phethau oddi wrth bobl eraill a'u brifo nhw'n mynd i

roi mwy o rym iddyn nhw. A'r mwyaf o rym fyddan nhw'n ei gael, y mwyaf maen nhw ei eisiau, a mwyaf barus maen nhw'n mynd. Felly maen nhw'n cario 'mlaen i frifo mwy a mwy o bobl nes bod pawb eisiau rhedeg i ffwrdd.'

'Fel y bwllis yn yr ysgol!' dywedais, gan deimlo'n grac.

'Wel ... am wn i, ychydig bach fel'na,' gwenodd Mam. 'Heblaw bod y bwllis mae'r ffoaduriaid yn rhedeg oddi wrthyn nhw'n llawer mwy ac yn fwy cas o lawer. Maen nhw'n gorfodi pobl i adael popeth oedd ganddyn nhw ar ôl. Hyd yn oed y bobl maen nhw'n ei garu fwyaf yn y byd.'

Meddyliais am y bachgen newydd, a theimlo trueni drosto. Efallai ei fod e wedi cael ei orfodi i adael pethau roedd e'n eu caru'n fwy na dim yn y byd, a dyna pam doedd e ddim yn siarad â neb ac angen cymaint o Neilltuo. Gwnes i drio meddwl am beth fyddwn i'n ei adael pe bawn i'n gorfod rhedeg i ffwrdd oddi wrth lawer o fwllis. Ond do'n i ddim yn gallu penderfynu. Yr unig beth sy'n bendant yw na faswn i byth yn gallu gadael chwaraewr recordiau Dad - na'i hoff forthwyl, sy'n dal yng ngwaelod drôr y gegin.

Cododd Mam a rhoi'i myg yn y sinc. 'Nawr, dwi'n gwybod dy fod ti eisiau bod yn ffrindiau â'r bachgen newydd yma, ond rhaid i ti beidio bod yn rhy frwdfrydig. Bydd angen llawer o amser a lle arno fe-gyntaf, iawn?'

Nodiais, er 'mod i ddim wir yn deall. Pe bawn i'n fachgen newydd, byddwn i'n treulio pob eiliad yn gwneud cymaint fyth o ffrindiau ag y gallwn i - yn enwedig pe bawn i wedi rhedeg i ffwrdd oddi wrth fwllis oedd yn fwy ac yn gasach na bwllis yr ysgol! Meddyliais tybed ddylwn i ddweud wrth Mam am y losin lemnw sherbert a'r llygod gwyn a'r oren â'r wyneb gwên, ro'n i wedi'u rhoi iddo fe, ond wedyn dywedodd hi, 'Dydy'r byd erioed wedi bod yn garedig i ffoaduriaid,' mewn llais trist. Roedd hi'n swnio'n union fel y byddai hi pan oedd hi'n siarad am Dad. Felly er 'mod i eisiau gofyn o leiaf bedwar cwestiwn arall, penderfynais beidio â dweud dim mwy.

'Nawr, yfa dy de mochyn a bant â ti i'r gwely! Wna i ddod i dy setlo di mewn munud.' Daeth Mam draw a rhwbio 'ngwallt. Bydd hi wastad yn rhwbio 'ngwallt pan fydd hi eisiau i fi feddwl ei bod hi'n hapusach nag y mae hi go iawn.

Yfais weddill y te mochyn gynted ag y gallwn i, a

rhedeg i'r gwely. Dim ond pan fydd hi adre'n gynnar y bydd Mam yn dod i mewn i fy setlo i, felly dyma oedd trî't go iawn. Dwi wrth fy modd yn cael fy setlo yn y gwely - hyd yn oed yn fwy na dwi'n hoffi curo pawb mewn ras neu sgorio gôl. Cael dy lapio'n gynnes a chysurus mewn blanced gan rywun rwyf ti'n ei garu'n fwy na neb arall yn y byd, ac sy'n dy garu di union yr un faint yw'r teimlad gorau yn y byd.

Wrth i fi aros i Mam ddod i mewn, meddyliais am bopeth roedd hi wedi dweud - am y bomiau a'r cychod a'r bobl ddrwg oedd mor farus nes eu bod nhw wedi gwneud i bawb fod eisiau rhedeg i ffwrdd. Roedd gen i gymaint i'w ddweud wrth Josie a Tom a Michael! Yn enwedig am na fyddai eu rhieni nhw wedi dweud hanner cymaint wrthyn nhw ag y dywedodd Mam wrtha i, dwi ddim yn meddwl.

Dyna un o'r pethau dwi'n caru fwyaf am Mam. Mae hi wastad yn gwneud ymdrech i ateb fy nghwestiynau, dim ots pa mor flinedig y mae hi, na pha mor anodd y cwestiynau hynny. A bydd hi'n dweud calon y gwir bob amser. Mae rhieni Michael wastad yn dweud, 'Ddim nawr, cariad', neu 'Gei di wybod pan fyddi di'n fwy', ac mae mam Josie wastad yn dweud wrthi hi fod merched

i fod yn dawel a pheidio â holi cymaint. Ond dyw Mam byth yn dweud dim byd fel'na. Efallai am ei bod hi'n darllen cymaint o lyfrau. Mae Mam yn dweud fod y llyfrau gorau'n rhoi mwy o gwestiynau nag atebion i chi, ac mai dyna'r peth gorau - rhaid i chi drio dod o hyd i'r atebion eich hun yn rhywle arall. Ac roedd Dad yn arfer dweud y mwyaf o gwestiynau fyddai rhywun yn eu gofyn, y mwyaf clyfar fyddden nhw. Achos dyna'r unig ffordd i chi fyth wybod mwy nag ydych chi'n ei wybod yn barod.

Dwi'n meddwl mai dyma'r tro cyntaf yn fy mywyd dwi wedi dymuno bod yn hynod, hynod glyfar am unrhyw beth, achos erbyn i Mam ddod i mewn i'm setlo i at y nos, roedd gen i restr hir o gwestiynau yn fy mhen r'on i eisiau'u gofyn i'r bachgen newydd. Un ar ddeg cwestiwn. Dyma sut ro'n nhw'n edrych:

Fy 11 Cwestiwn

1. O ble wnest ti redeg i ffwrdd?
2. Pa iaith wyt ti'n siarad?
3. Pwy yw'r fenyw yn y sgartff goch?
4. Oes gen ti frodyr a chwiorydd?

5. Beth wnaeth y bullis er mwyn gwneud i ti redeg i ffwrdd?
6. Fu'n rhaid i ti fynd mewn cwich fel y bobl ar y newyddion?
7. Pa chwaraeon wyt ti'n eu hoffi orau?
8. Beth yw dy hoff ffrwyth?
9. Pa mor bell fu'n rhaid i ti gerdded i ddianc rhag y bullis?
10. Wyt ti'n hoffi bod fan llyn neu wgt ti'n gweld eisiau dy hen diŷ yn fwy?
11. Oes gen ti ffrind gorau?

Byddai fy un ar ddeg cwestiwn yn fy helpu i wybod popeth roedd angen i fi ei wybod am y bachgen newydd, er mwyn i fi allu bod yn ffrind iddo fe. Ac ro'n i'n mynd i ddechrau dod o hyd i'r ateb i bob un cwestiwn.



Y Fenyw yn y Sgarff Arian

Pan gyrhaeddais i'r safle bws y bore wedyn, dyma fi'n dweud wrth Josie a Tom a Michael bopeth roedd Mam wedi dweud wrtha i am Ffoaduriaid, a sut roedd yn rhaid i'r bachgen newydd fynd ar gwch heb ddim toiledau, siŵr o fod, er mwyn gallu rhedeg i ffwrdd o'r bomiau a'r holl bethau drwg eraill roedd y bwlis wedi'u gwneud i'w wlad e.

'Ond mae Dad yn dweud bod Plant Ffoaduriaid yn beryglus, ac maen nhw'n dweud celwydd ac yn dwyn pethau,' dywedodd Josie, a golwg ddryslyd ar ei hwyneb. 'Ddywedodd e wrtha i am gadw draw oddi wrth y bachgen newydd, a pheidio â siarad ag e, am ei fod e'n debygol o fod yn ddihiryn!'

'Ond dywedodd Mam y dylen ni fod yn arbennig o

5. Beth wnaeth y bullis er mwyn gwneud i ti redeg i ffwrdd?
6. F'u'n rhaid i ti fynd mewn cwtch fel y bobl ar y newyddion?
7. Pa chwaraeon wyt ti'n eu hoffi orau?
8. Beth yw dy hoff ffrwyth?
9. Pa mor bell f'u'n rhaid i ti gerdded i ddianc rhag y bullis?
10. Wyt ti'n hoffi bod fan llyn neu wyt ti'n gweld eisiau dy hen dŷ yn fwy?
11. Oes gen ti ffrind gorau?

Byddai fy un ar ddeg cwestiwn yn fy helpu i wybod popeth roedd angen i fi ei wybod am y bachgen newydd, er mwyn i fi allu bod yn ffrind iddo fe. Ac ro'n i'n mynd i ddechrau dod o hyd i'r ateb i bob un cwestiwn.



Y Fenyw yn y Sgarff Arian

Pan gyrhaeddais i'r safle bws y bore wedyn, dyma fi'n dweud wrth Josie a Tom a Michael bopeth roedd Mam wedi dweud wrtha i am Ffoaduriaid, a sut roedd yn rhaid i'r bachgen newydd fynd ar gwch heb ddim toiledau, siŵr o fod, er mwyn gallu rhedeg i ffwrdd o'r bomiau a'r holl bethau drwg eraill roedd y bwllis wedi'u gwneud i'w wlad e.

'Ond mae Dad yn dweud bod Plant Ffoaduriaid yn beryglus, ac maen nhw'n dweud celwydd ac yn dwyn pethau,' dywedodd Josie, a golwg ddryslyd ar ei hwyneb. 'Ddywedodd e wrtha i am gadw draw oddi wrth y bachgen newydd, a phaidio â siarad ag e, am ei fod e'n debygol o fod yn ddihiryn!'

'Ond dywedodd Mam y dylen ni fod yn arbennig o

neis wrtho fe. Edrychwch! Ac wrth agor ei sach gefn, dangosodd Tom fag mawr o losin i ni. 'Dyweddodd Mam y dylen ni roi rhain iddo fe amser cinio. A dywedodd hi fod yn rhaid i ni fod yn neis wrtho fe a pheidio â gofyn gormod o gwestiynau iddo fe.'

'Dyna ddywedodd Mam hefyd,' dywedodd Michael, wrth i ni ddringo ar y bws i'r ysgol. 'Ond ddywedodd hi wrtha i am roi banana iddo fe. A dywedodd Dad fod Ffoaduriaid yn rhedeg i ffwrdd o'r rhyfel sydd ar y teledu drwy'r amser. Wnaeth e ddim sôn dim am unrhyw fwllis!'

Edrychon ni draw ar Josie, oedd yn cnoi diwedd ei gwallt ac yn gwgu. Wnaeth hi ddim dweud gair, ond ro'n i'n gwybod ei bod hi'n amau bod ei thad hi wedi gwneud camgymeriad. Roedd hi'n amhosib i'r bachgen newydd fod yn beryglus nac yn ddihiryn - ddim ac yntau yr un maint â ni a newydd redeg i ffwrdd oddi wrth fwllis a rhyfel go iawn.

Roedd Mr Thompson wedi dysgu popeth am ryfeloedd i ni y llynedd. Roedd hi wedi bod yn flwyddyn arbennig ar gyfer rhyfeloedd, a dywedodd Mrs Sanders mai ein dyletswydd ni oedd peidio anghofio amdanyn nhw. Ddysgon ni am y pabi coch a mai nhw oedd y

blodau mwyaf pwysig am eu bod nhw'n tyfu ar feddau'r milwyr, a sut roedd llawer o wledydd wedi ymuno i ymladd yn y rhyfel cyntaf oll. Gwnaeth y plant mawr wasanaeth am ryfel ac aethon ni ar drip arbennig i Dŵr Llundain lle mae'r Frenhines yn cadw'i choron, am fod miliynau o babiau coch wedi cael eu rhoi yn yr ardd, a'u gludo ar y waliau.

Dyweddodd Mr Thompson na ddylen ni fyth anghofio faint o bobl oedd wedi marw mewn rhyfeloedd er mwyn ein hachub ni, ond dwi ddim yn gallu cofio rhifau mawr, yn enwedig rhai sy'n mynd yn fwy drwy'r amser. Ond wna i byth anghofio'r castell yna. Roedd yn edrych fel pe bai gwaed yn dod allan ohono fe. Ac yn hwyrach y diwrnod hwnnw, cawson ni wers arbennig iawn yn y castell gan ddyn oedd yn gwybod popeth am y rhyfel mawr cyntaf. Ei enw oedd Swyddog Denny. Dwi'n ei gofio fe am fod ei enw'n odli gyda fy Wincwl Lenny.

Roedd pawb yn hoff ohono fe am ei fod e'n ddoniol ac yn gwybod popeth oedd i'w wybod am fomiau a gwisgoedd a lle trist o'r enw Meysydd Fflandrys. Dewisodd e Michael a fi i geisio dal sach gefn oedd yr un maint a'r un pwysau â sach gefn milwr go iawn. Ond roedd hi mor fawr a thrwm, allen ni ddim hyd yn

oed ei chodi o'r ddaear!

Wrth gofio am sach gefn Swyddog Denny, meddyliais tybed oedd y bachgen newydd wedi gorfod cario llawer o bethau trwm yn ei sach gefn pan oedd e'n rhedeg i ffwrdd. Efallai dyna pam roedd hi'n edrych mor hen a llychlyd. Doedd dim un newydd ganddo fe o hyd, ond yr wythnos hon roedd e wedi dechrau gwisgo'r wisg ysgol. Rhaid bod y crys a'r siwmpwr newydd yn cosi, oherwydd roedd e'n tynnu wrth y goler bob tro roedd e'n meddwl bod neb yn edrych.

Y diwrnod hwnnw, roedd y bws ysgol yn hwy, ac roedd cymaint o draffig ym mhobman nes bod y gyrrwr wedi gadael i bawb fynd o'r bws yn gynnar. Bu'n rhaid i ni redeg hanner y ffordd yno ac erbyn i ni gyrraedd y buarth, roedd y gloch wedi dechrau canu. Ro'n i'n dwym a chwyslyd ac yn teimlo'n ych-a-fi pan gyrrhaeddodd ni'r dosbarth, felly do'n i ddim wedi sylweddoli fod pawb yn fwy tawel nag arfer. Ond ar ôl munud neu ddwy, sylwais fod Parvinder a Dean - oedd yn glyfar iawn ac yn eistedd yn y blaen - yn edrych dros eu hysgwyddau drwy'r amser. I ddechrau, ro'n i'n meddwl eu bod nhw'n edrych arna i am fod fy wyneb mor goch o hyd, ond wedyn clywais Parvinder yn

dweud, 'Tybed pwy yw hi?'

Trois a gweld oedolyn yn eistedd yn sedd Clarissa. Ac nid unrhyw oedolyn ond un oedd yn siarad â'r bachgen newydd! Ac roedd y bachgen newydd yn siarad â hi!

Pwniais fraich Josie a dweud, 'Edrych!'

Trodd Josie a sibrwd, 'Ble mae Clarissa?'

Edrychon ni rownd y dosbarth a gweld bod Clarissa'n eistedd ar ben ein rhes ni ar fwrdd Felicity a Natasha. Roedd hi'n edrych yn llawer mwy hapus.

'Brysiwch ac ymdawelwch os gwelwch yn dda!' dywedodd Mrs Khan, wrth gydio yn y gofrestr. 'Cyn i ni fynd i'r gwasanaeth, hoffwn gyflwyno rhywun arbennig iawn. Ond gadewch i ni wneud yn siŵr fod pawb yma gyntaf!'

Ar ôl iddi orffen galw enw pawb, dywedodd Mrs Khan, 'Nawr blant, dwi eisiau i chi ddweud bore da wrth Ms Hensi, ein cynorthwyydd dosbarth newydd.'

Safodd Ms Hensi ar ei thraed a gwenu ar bawb.

'Bore daaaaaaaa, Ms Hensiiiiiiii!' dywedodd pawb. Gweiddi wnaeth hanner y dosbarth, a'r hanner arall yn sibrwd - fel pe baen nhw ddim yn siŵr oedd Mrs Khan wedi dweud yr enw cywir. Gweiddi wnes i. Dwi'n hoffi

gweiddi enwau newydd. Mae'n gwneud iddyn nhw deimlo'n fwy real.

Gwenodd Ms Hemi a dweud, 'Bore da, bawb!'

'Bydd Ms Hemi'n helpu Ahmet gyda'i wersi o hyn ymlaen. Os byddwn ni'n ffodus iawn, bydd hi'n helpu Ahmet i wneud cyflwyniad am ei gartref ymhen wythnos neu ddwy, ac am sut mae e'n teimlo i fod yma yn Llundain.'

Trodd pawb i syllu ar Ms Hemi, oedd yn nodio a gweni, ac yna eisteddodd hi'n ôl ar y gadair.

'Mae hi'n edrych yn neis,' sibrydodd Josie. 'Dwi'n hoffi'i sgarff hi!'

Edrychais 'nôl dros fy ysgwydd oherwydd ro'n i'n hoffi'r sgarff oedd ar ben Ms Hemi hefyd. Roedd yn edrych fel afon arian ac roedd pin diemwnt yn sownd yn un ochr oedd yn edrych fel seren. Roedd ganddi wên oedd ddim yn dangos dannedd, ond ro'n i'n ei hoffi. Ac roedd ei llygaid hi'n edrych fel pe bai rhywun wedi tynnu llun o'u cwmpas gyda phensel ddu drwchus, oedd yn gwneud iddyn nhw edrych yn fwy ac yn fwy diddorol.

Roedd y bachgen newydd fel pe bai'n ei hoffi hi hefyd, a phan eisteddodd hi i lawr, sibrydodd rywbeth

wrtho fe a chyffwrdd â'i gefn, wnaeth wneud iddo fe nodio. Ro'n i'n teimlo'n falch drosto fe. Roedd ganddo fe rywun i siarad â hi, a doedd dim rhaid iddo fe eistedd wrth ochr Clarissa ddim mwy. Mae'n llawer neisiach eistedd wrth ochr rhywun sydd ddim wastad yn ceisio dianc oddi wrthoch chi drwy'r amser, ac sy'n gwisgo pin diemwnt yn ei sgarff.

Drwy gydol y diwrnod hwnnw, gwnaeth y bachgen newydd ei wersi yng nghefn y dosbarth, ac amser egwyl ac amser cinio, aeth i Neilltuo fel arfer. Ond, efallai am fod Ms Hemi gydag e, wnaeth e ddim edrych ar y llawr mor aml ag arfer, fel pe bai ganddo fe fwy o ddiddordeb mewn popeth ro'n ni'n gwneud. Sylwais arno'n syllu ar Josie a fi ddwywaith cyn cinio a thair gwaith yn y prynhawn, ac ro'n i'n siŵr ei fod e eisiau bod yn ffrindiau gyda ni nawr.

Pan oedd hi'n amser mynd adre, arhoson ni fel arfer ar bwys y glwyd – ond y tro hwn roedd gan bob un ohonon ni rywbeth i'w roi iddo fe. Roedd Josie wedi cadw'i phwddin iogwrt siocled o'i bocs bwyd yn arbennig iddo fe, ac roedd gan Michael a Tom y bag losin a'r banana roedd eu rhieni nhw wedi dweud wrthyn nhw gadw. Heddiw roedd gen i afal i'w roi iddo fe

- oherwydd doedd dim orenau ar ôl yn ffreutur yr ysgol. Ond roedd hynny'n iawn, am fod Tom wedi rhoi sticer arbennig â llun morfil arno fe i'w llynu ar yr afal, felly roedd e'n dal yn sbesial.

Wrth i ni aros, croesais fy mysedd a gobeithio'n ddirgel y byddai Ms Hensi'n dod mas gyda'r bachgen newydd hefyd, oherwydd gan ei bod hi'n gallu siarad yn iawn gyda fe, gallai hi ofyn rhai o'r un ar ddeg cwestiwn oedd gyda fi iddo fe.

Roedd y buarth wedi dechrau gwagio erbyn i'r bachgen newydd ddod allan, gan ddal llaw gyda Ms Hensi a Mrs Khan. Wrth iddyn nhw fynd draw at y fenyw yn y sgarff goch, sibryddodd Michael, 'Dewch!' Ro'n i'n gallu dweud ei fod e wedi cyffroi oherwydd roedd ei lygaid wedi mynd yn fwy llydan. Mae llygaid Michael wastad yn mynd yn lletach pan fydd e'n methu aros i wneud rhywbeth.

Dyma ni'n rhedeg draw at y bachgen newydd a rhoi ein hanrhegion iddo fe.

'Mae hwn gen i,' meddai Tom, gan ddal y bag mawr o losin fel pe bai'n gwpan. 'Mae poteli cola, a soseri'r gofod ac ambell doffi toddi hefyd!'

'Ac mae hwn gen i,' dywedodd Josie, gan estyn y

pwdin siocled. 'Fy ffefryn!'

'Ymm ... dim ond banana yw hwn. Ond edrych!' dywedodd Michael gan droi'r ffrwyth drosodd i ddangos rhes o ddynion pric roedd e wedi tynnu llun ohonyn nhw arno fe i'r bachgen newydd.

'Ac mae hwn oddi wrtha i,' dywedais, gan ddal yr afal.

Edrychodd y bachgen newydd i fyny, ei freichiau'n llawn, a rhoi nod fach hapus i bob un ohonom ni. Ro'n i'n gallu dweud ei bod hi'n nod hapus ac nid dim ond yn nod gyffredin oherwydd er nad oedd ei geg e'n gwenu, roedd ei lygaid llew'n edrych yn hapus.

Plygodd Ms Hensi a dweud rhywbeth mewn iaith dramor yng nglust y bachgen newydd. Nodiodd, ac wedyn, gan edrych i fyny arnom ni, dywedodd yn araf iawn, 'Diolch ... i chi ... ffrindiau.'

Nodiodd Josie, Michael, Tom a fi a gwenu led y pen, ac yna, ar unwaith, dechreuon ni siarad ar yr un pryd.

'Hoffet ti ddod i chwarae pêl-droed gyda ni fory?' gwaeddodd Tom. 'Amser chwarae?'

'Wna i gael un arall o'r pwdinau 'na i ti fory os wyt ti'n eu hoffi nhw!' ebychodd Josie.

'Wna i ofyn i Mam roi rhywbeth gwell na banana i

fi!' gwaeddodd Michael. 'Beth am gacen fach?'

'A dwi'n mynd i gael rhywbeth gwell nag afal fory! Beth yw dy hoff ffrwyth?' gofynnais.

Edrychodd y bachgen newydd arnom ni, ac yna edrychodd i fyny ar Ms Hemi a Mrs Khan, ac yna ar y fenyw yn y sgarff goch. Ro'n nhw i gyd yn gwenu, a rhwbiodd y fenyw yn y sgarff goch wallt Ahmet, fel roedd Mam wedi gwneud â 'ngwallt i neithiwr.

'Nawr 'te, blant,' dywedodd Mrs Khan, gan blygu i lawr i roi'i hwyneb wrth ein hwynebau ni. 'Mae pob un o'r rhain yn anrhegion hyfryd. A dwi'n gwybod bod Ahmet yn ddiolchgar iawn amdanyn nhw. Ond mae angen iddo fe ddysgu tipyn bach mwy o Saesneg cyn y bydd e'n gallu ateb eich cwestiynau, iawn?'

Dyma ni'n edrych ar ein gilydd ac yna ar Mrs Khan, ac yna nodio.

'Ond dwi'n meddwl bod gen ti syniad da iawn, Tom. Falle byddai Ahmet yn hoffi chwarae pêl-droed gyda chi amser egwyl fory!' Edrychodd Mrs Khan ar Ms Hemi, a nodiodd y ddwy. 'Ydy, mae hynny'n syniad da iawn.'

'Rhagoroli' dywedodd Tom, ac roedd e mor falch nes iddo fe daro'r bachgen newydd ar ei fraich â'i

ddwrn. Edrychodd y bachgen newydd ar Tom, ac wedyn ar ei fraich, fel pe bai e ddim yn siŵr iawn beth oedd newydd ddigwydd.

'A does dim angen rhoi cymaint o anrhegion iddo fe bob dydd,' dywedodd y fenyw yn y sgarff goch, gan chwerthin. 'Mae'n beth caredig i'w wneud, ond dydyn ni ddim eisiau i ddannedd Ahmet bydru, ydyn ni?'

Ysgydwodd pawb eu pennau.

'Os ydych chi'n dal eisiau rhoi rhywbeth iddo fe pan fydd hi'n amser mynd adre, dewiswch un peth rhwng y pedwar ohonoch chi a bydd hynny'n hen ddigon. Iawn?'

Nodiodd pob un ohonom ni, ac yna gwaeddais i, 'Ms Hemi!' Do'n i ddim wedi bwriadu siarad mor uchel ond ro'n i'n llawn cyffro o feddwl y gallwn i gael ateb i'un o 'nghwestiynau, do'n i ddim yn gallu stopio fy hun.

'Ie?' gwenodd Ms Hemi.

'Alla i ... ymm ... o ble mae e'n dod? Sef, pa wlad? A pha iaith mae e'n siarad?' gofynnais, gan edrych ar y bachgen newydd.

Lledodd gwên ar wyneb Ms Hemi - er bod ei dannedd hi'n dal o'r golwg. 'Mae Ahmet yn dod o wlad

o'r enw Syria, ac mae e'n siarad iaith o'r enw Cwrdeg.'

'Ydych chi'n siarad Cwrdeg a Saesneg?' gofynnodd Josie, â golwg lawn edmygedd ar ei hwyneb.

'Ydw,' atebodd Ms Hensi. 'Dwi'n dod o Syria hefyd.'

'Pam dydy Ahmet ddim yn siarad Saesneg?' gofynnodd Tom.

'Wel ...' dywedodd Ms Hensi. 'Oherwydd does dim angen i neb siarad Saesneg yn Syria. Yr un ffordd does dim angen i chi siarad iaith Syria fan hyn yn Lloegr.'

'O.' Cododd yr ateb wg ar wyneb Tom, oedd yn golygu ei fod e'n gofyn llawer o gwestiynau eraill yn ei ben.

'Nawr 'te, blant, bant â chi,' dywedodd Mrs Khan, gan guro'i dwylo. 'Mae angen i Ahmet fynd adre, a chi hefyd. A Tom - dwi'n sylwi dy fod ti'n gwisgo treinyrs dy frawd mewn camgymeriad eto! Tria wneud yn siŵr mai dyma'r tro diwethaf, iawn?'

'Lawn, Miss,' atebodd Tom, a'i wyneb yn fflamgoch.

Dyna ni'n chwifio hwyl fawr ac anelu am y safle bws. Cyn i ni droi'r cornel, edrychais dros fy ysgwydd a gweld y bachgen newydd yn cnoi darn mawr o'r afal ro'n i wedi'i roi iddo fe. Ro'n i'n teimlo hyd yn oed yn

fwy hapus na phan roedd Ms Hensi wedi ateb fy nghwestiynau! Ond eiliad yn ddiweddarach, diflannodd y teimlad hwnnw, oherwydd dyna pryd y gwelais i Brendan-y-Bwli.

Roedd e'n sefyll o flaen toiledau'r bechgyn, ychydig fetrau i ffwrdd, ac roedd ei fochau'n binc a'i lygaid yn gul, ac roedd e'n gwyllo'r bachgen newydd â gwsg ar ei wyneb. Mae pawb yn gwybod bod Brendan-y-Bwli'n casáu unrhyw un sy'n wahanol iddo fe, ond dyma'r tro cyntaf i fi ei weld e'n edrych mor grac a chas. Doedd e ddim yn gallu gwneud dim oherwydd roedd Ms Hensi a Mrs Khan a'r fenyw yn y sgarff goch yno, ond wrth i ni fynd i gwrdd â'r bws, ac wedyn yr holl ffordd adre, ro'n i'n methu stopio gofidio. Dwi'n meddwl 'mod i'n gwybod ar unwaith mai rhybudd oedd yr wg, a'i fod e'n mynd i wneud pethau'n anodd i'r bachgen newydd ac unrhyw un oedd eisiau bod yn ffrindiau ag e.

Yn anffodus, fi oedd yn iawn. Oherwydd yn ystod amser chwarae cyntaf y diwrnod nesaf un, dyna'n union ddechreuodd e wneud.